# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 453 | Gorffennaf 2024 | Pris £1.50


# CODI CERFLUN TWM CARNABWTH



Cynhaliwyd noson agored yng Nghaffi Beca, Efailwen ar nos Fercher, Gorffennaf 17eg er mwyn rhoi cyfle i bobol roi eu barn ar ddau maquette (cerflun bach) o Twm Carnabwth. Mae'r cerflunydd Rubin Eynon o Gastell Nedd, sydd wedi ei benodi i lunio'r cerflun, wedi bod yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf yn cynllunio dau gerflun bach - a cafodd rhain eu harddangos ar y noson. Roedd bron pawb yn ffafrio'r cerflun bach welir ar y dde, ond bydd Rubin yn ei addasu rywfaint eto, cyn creu'r gampwaith terfynol. Roedd Rubin yn bresennol ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i sgwrsio a clywed barn y bobol.

Roedd Meirion Jones, yr artist amryddawn o Aberteifi yn bresennol hefyd, er mwyn cyflwyno argraffiad cynta o'i ddarlun "Whalu'r Iet yn shils" (gwelir y llun isod) i'r pwyllgor. Mae modd archebu a prynu argraffiad o'r llun, mewn ffram, am bris o £250 – bydd holl elw'r gwerthiant yn mynd tuag at ymgyrch codi arian tuag at y cerflun. Cysylltwch gyda Eurfyl ar 07980 883924 i archebu print.



Apeliwn am eich cefnogaeth i'r ymgyrch, sy'n rhan bwysig o'n hanes a'n hetifeddiaeth.
Rydym wedi codi ychydig dros £12,000 erbyn hyn, ond mae angen £48,000 arall arnom. Rydym yn gobeitho codi swm sylweddol drwy werthu argraffiadau o ddarlun Meirion, cyfraniadau wrth unigolion a cymdeithasau, yn ogystal a derbyn grant er mwyn cwblhau'r gwaith erbyn mis Mehefin 2025.

Mae modd cyfrannu tuag at yr ymgyrch codi arian drwy'r ddolen gofundme ar dudalen facebook Codi Cerflun Twm Carnabwth, gwneud taliad arlein i gyfrif banc Cymdeithas Cwm Cerwyn (30 91 65  01036767) neu drwy anfon siec, yn daladwy i Cymdeithas Cwm Cerwyn, i Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP. Mae llawer dal yn dweud bod hi'n fwriad ganddynt i gyfrannu, ond dal yn oedi nes derbyn cadarnhad bod y prosiect yn mynd ymlaen. Gobeitho fod gweld llun o'r cerflun bach yma yn brawf digonol bod y prosiect yn digwydd gan ddiolch mlan llaw am eich cefnogaeth.

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com


Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Wel mae'r gwyliau wedi bod, a'r gobeithion o ychwanegu 'chydig o liw haul Sir Gâr at liw'r cyfandir yn pylu. Oes rhywun yn cofio haf oerach na hwn dwedwch ?!

Do, llwyddais i a'r gŵr i oroesi tair wythnos o deithio ar drên o amgylch sawl gwlad ar gyfandir Ewrop. O Frankfurt i Bratislava, Budapest ac Innsbruck i Firenze, Genoa, Monaco Nice a Pharis – gwelsom ryfeddodau drwy ffenestr sawl trên, a'r mwyafrif llethol ohonyn nhw yn ddibynadwy, ar amser ac yn gyfforddus.

Wrth deithio drwy dde'r Almaen tuag at Awstria a dilyn afon Donwy (Danube) i brifddinas Slofacia, Bratislava, ac yna Budapest yn Hwngari, fe welsom lifogydd difrifol mewn ardaloedd gwledig, gyda chaeau dan ddŵr. Ac roedd llif yr afon yn hynod o gryf a'i lefel yn uchel yn y dinasoedd hynny. Felly yn amlwg, nid ni yn unig sydd wedi profi haf gwlyb. Wedi dweud hynny, roedd hi llawer cynhesach yno.

Fel afon Donwy, llifo oedd yr arian hefyd o'n pocedi, wrth brynu hyn a'r llall, ond rhaid cyfaddef mai'r lle drytaf i fwyta allan, oedd noson gyntaf ein taith yng Nghaerdydd. Frankfurt yn yr Almaen oedd lleoliad ein hail a'n trydedd noson, sef dinas Banc Canolog Ewrop sy'n cael ei hystyried yn ganolfan ariannol flaenllaw bellach. Rhaid cyfaddef felly mod i wedi rhyfeddu, wrth sylweddoli fod cyn lleied o siopau a bwytai yn derbyn cardiau banc yno, gyda nifer fawr yn derbyn arian parod yn unig neu gardiau banc Almaenaidd os nad oedd arian wrth law.

Gyda sawl sefyllfa debyg yn codi yn ystod y tair wythnos ar ein teithiau, mae'n ymddangos i mi bod talu yn ddigyffwrdd â cherdyn banc yn arferiad llawer mwy cyffredin yma.

Do, bu'n daith o ddysgu llawer am hanes gwledydd, a syllu ar olygfeydd godidog yn enwedig wrth deithio ar y cledrau rhwng Awstria a gogledd Yr Eidal. O'r eira ar gopa'r mynyddoedd yno, i law trwm yr Almaen a Monaco, a haul tanbaid Firenze yn yr Eidal a Nice yn ne Ffrainc, profwyd pob math o dywydd hefyd.

Felly byddem yn sicr yn argymell taith ar drên. Mae'n gyfforddus ac yn gyfleus. Ond wrth gwrs, yr anfantais wrth weld popeth mor glir y tu allan i'r ffenestr ydy eich bod yn teithio trwy ardaloedd lle rydych yn difaru na wnaethoch aros ynddyn nhw.

Dim ond un peth amdani felly - fe fydd yn rhaid dychwelyd rhyw ddydd i Salzburg a dewis llwybr newydd ar y cledrau!
Gan ddymuno haf da i chi, gan weddïo hefyd y cawn ychydig o dywydd hafaidd cyn i'r poteli eli haul fynd heibio'u dyddiad yng nghypyrddau pawb!

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Elonwy Phillips, Hendygwyn*

Ydych chi'n berson cystadleuol? Ydych chi'n casau colli?
Y diwrnodau (wythnosau) diwethaf yma yr ydym wedi profi Etholiad Cyffredinol arall yn ein hanes, lle'r oedd ennill neu golli yn eithriadol bwysig. Fe ddaeth yr etholiad ynghanol ein tymor cystadleuol ni fel Cymry. Ar ddechrau Mai, fe ddaw Raliau'r Ffermwyr Ieuainc, a chyfle i'r ieuenctid gystadlu ar amrywiol dasgiau, a dysgu llawer. Yna cyn diwedd Mai bob blwyddyn, mi fydd hi'n Eisteddfod yr Urdd, a'r un mor bwysig i mi, Sioe Amaethyddol Pontargothi, un o'r sioeau cyntaf yng nghalendar y flwyddyn amaethyddol…. Eisteddfod Llangollen,…. Tour de France,….. Wimbledon,….

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.comY |
| (Newyddion Tabernacl) | Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

Y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Y mae y rhestr yn ddi-ddiwedd, ac mae nifer o bethau nad ydynt ar y rhestr, ac yn fonws eleni, fe ddaw y Gemau Olympaidd yn fuan. Ymha faes bynnag, mi fydd yna baratoi trylwyr wedi bod cyn diwrnod y cystadlu. Bydd cyfle i bob un ohonom i eistedd o flaen y teledu a bod yn feirniad answyddogol, a gwae os na fydd canlyniad y dydd yn cytuno â'n barn ni!

Un o'r cyfleodd cyntaf gefais i i gystadlu oedd ar lwyfan Eisteddfod Gyd-Enwadol Pontargothi a'r Cylch. Mae'r Eisteddfod, a gychwynodd yn ôl ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf yn dal i fynd. Mi fyddai cystadleuaeth parti cyd-adrodd i blant Cynradd ac Uwchradd bob blwyddyn, a rhan o'r ysgrythur yn ddarn gosod bob tro. Dim papur ar y llwyfan! Rhaid oedd dysgu ar y côf, a dyna pam mae darnau cyfarwydd o'r Testament Newydd a rhai o'r Salmau yn dal ar y côf hyd heddiw. Os cawsoch gam yn rhywle, wrth i mi feirniadu, efallai mai'r darn papur yn eich llaw oedd yn gyfrifol!! Ysgol Sul wedyn, a rhaid oedd dysgu adnod newydd bob wythnos i'w hadrodd o flaen cynulleidfa'r Capel. Mae y rhain hefyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ddadlau rhyw bwnc neu gilydd flynyddoedd yn ddiweddarach!

Mae'n siwr bydd y mwyafrif ohonoch yn dweud mai'r profiad o gystadlu ac nid ennill sydd yn bwysig. Dwi'n anghytuno yn llwyr! I mi os cystadlu, rhaid anelu i ennill, neu bod yn fethiant! Trwy ddod yn ail, chi yw'r cyntaf o'r collwyr!

Mae cysur yn y neges, oherwydd nid yw dilynwyr Iesu Grist byth yn colli. Mae'r unigolion newydd a etholwyd ar Orffennaf 4ydd yn mynd i gael eu tymor o sylw ar y llwyfan gwleidyddol. Fyddwch chi yn cofio eu henwau neu eu cyfraniad ymhen rhai blynyddoedd.? Yr ydym ni yn dal i alw ar enw Yr Arglwydd Iesu Grist, dwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach, er gwaethaf pob trai a gwrthwynebiad. Gobeithio i chi ddefnyddio eich pleidlais yn yr etholiad ddiweddar yma yn ddoeth. Beth wnaethom ni? Pwyso a mesur cyn gosod ein croes i ddangos pa blaid neu unigolyn oedd yn apelio . Fe wnaeth UN ddewis cario ei groes , a gwneud hynny, nid er mwyn ei hunan, ond er mwyn eraill. Fe wnaeth EF golli ei fywyd, er mwyn i ni gael ennill ac etifeddu bywyd tragwyddol. Fe fu yna weiddi a chymeradwyo wrth i ganlyniadau gael eu cyhoeddi wedi cyfrif y pledleisiau swyddogol. A ydym ni yn gwneud digon heddi i godi llais a dangos pwy ydym ni yn ei gefnogi? Ond wrth gwrs, fe gofiwn gyda chywilydd fel y bu i'r "Hosanna" droi yn "Croeshoelier Ef".

Er hyn,

"Newyddion braf a ddaeth i'm bro,
hwy haeddiant gael eu dwyn ar go',
mae'r Iesu wedi cario'r dydd!"

Dyna'r canlyniad mwyaf un. Ond nid yw canlyniad fel hyn yn gwneud penawdau newyddion heddi yn anffodus.

Do, fe gawsom addewidion lu gan nifer; yn arwain i fyny at yr etholiad. Amser a ddengys beth ddaw o'r addewidion hynny.

Rhaid i ni fel Cristnogion roi ein pleidlais yn gyson i'r UN a fydd yn gofalu amdanom bob amser. Yr UN a wnaeth addewid a'i chadw. UN a oedd yn barod i golli a gwneud hynny yn anrhydeddus, er mwyn i ni gael ennill.

"marw drosof, cario'r dydd
clod a moliant
fydd yn llanw 'mywyd mwy.

# *I’ch diddori* *gan John Arfon*

*Dymunwn iechyd buan i unrhyw rai sydd heb fod yn hwylus yn ddiweddar a’n cydymdeimlad dwysaf i’r rhai a gollasant anwyliad yn ystod yr wythnosau diweddar hyn.*

**Dyma atebion posau’r mis diwethaf**

Canfod yr awdur oedd y pôs cyntaf.

Atebion i’r cliwiau oedd: Sisyrnau, Benthyca, Amnaid, Hael, Wythnos, Sawr, Euraid, a Chwilen.

Y dywediad oedd: **Mae’r iaith yn bwysicach na hunanlywodraeth. (Saunders Lewis)**

Yr ail bôs oedd cwblhau y grid igam-ogam.

Atebion y cliwiau oedd

1. Dawn, 2. Naws, 3. Saer, 4. Reis, 5. Saws, 6. Siwt, 7 Tila 8. Asyn, 9, Nage, 10. Eira, 11. Atom, 12. Maip, 13. Pobi, 14. Ioga, !5. Adeg, 16. Gwer.

Yr ateb a gaech trwy ddarllen y blychau llwyd oedd: **Aberdar**

**Dyma atebion y mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | O | O | X | X |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| O | O | X | O | X | X |
| X | O | X | X | O | O |
| X | X | O | X | O | O |


| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 2 | 3 | 5 | 7 | 1 | 8 | 6 | 4 |
| 4 | 7 | 5 | 8 | 3 | 6 | 2 | 9 | 1 |
| 1 | 8 | 6 | 4 | 2 | 9 | 5 | 7 | 3 |
| 5 | 1 | 8 | 6 | 9 | 3 | 4 | 2 | 7 |
| 2 | 9 | 7 | 1 | 5 | 4 | 3 | 8 | 5 |
| 6 | 3 | 4 | 2 | 8 | 7 | 9 | 1 | 5 |
| 3 | 5 | 9 | 7 | 6 | 2 | 1 | 4 | 8 |
| 8 | 6 | 4 | 9 | 4 | 5 | 7 | 3 | 2 |
| 7 | 4 | 2 | 3 | 1 | 8 | 6 | 5 | 9 |

**Dyma ddau arall i’ch dyfyrru**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | | O | |
| X | | | | | |
| | O | | X | | |
| O | | | | | O |
| | | | X | | |
| O | | O | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 4 | | | | | 8 | 6 | 1 |
| | | 2 | 6 | | | | 9 | |
| 3 | 6 | | 8 | | 9 | | | |
| 1 | 9 | 4 | | | | | | |
| | | | 1 | | 3 | | | |
| | | | | | | 5 | | 2 |
| | 7 | 3 | | | | 1 | | |
| 8 | | | 3 | | | | 7 | |
| | | | 7 | 1 | 4 | 6 | 8 | |

**Dyma'r pôs cyntaf ichwi y mis hwn, sef croesair gweddol syml.**



Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren

**Dyma'r cliwiau**

Ar Draws


1. Rhan o amser Waldo ( 2, 5, 3 )
6. Nid yw'n ddrwg cyfrannu at hwn ( 4 , 2 )
7. Enw cyntaf un o'r "Chwilod" ( 5)
9. Clustnodi rhywbeth a'i brynu ( 6 )
10. Gweler 3 i lawr
11. Ynys y pererinion (4 )
14. Pysgodyn a geir mnewn tun aliminiwm ( 4 )
15. Daw hwn o'r Pwll ( 3 )
16. Amrhiodol neu anghymwys ( 6 )
17. Di-groeni anifail neu dwyllo'n ariannol ( 5 )
18. Blas neu chwant am rywbeth ( 6 )
20. Diffyg trefn neu flerwch ( 10 )

I Lawr

1. Arwain fenaid at y graig sydd---na'r lli ( 3 )
2. Ysgoldy capel ( 6 )
3. a 10 ar draws, Merch Tir na n'Og ( 3, 2, 3 )
4. Pictiwr ( 6 )
5. Heb fod yn amgyffred ( 8 )
6. Pennaeth Caergaint ( 8 )
8. Sgrechfeydd ( 8 )
9. Nwyddau anfonir i wledydd tramor ( 8 )
12. Soniaf i geisio gwneud pethau'n debyg i'w gilydd (6)
13. Gall nam Reg roi lleoliad neu safle ichwi ( 6 )
14. Mymryn i'w fwyta i aros pryd ( 6 )
19. Talfyriad Cymdeithas y Dysgwyr ( 3 )

**Yr ail bôs yw cwblhau y Cencen (yn y golofn nesaf) yn gywir.**

Dyma'r rheolau: Yn y grid mae'n rhaid i'r rhifau a roddir o 1-6 gael eu cynnwys ym mhob llinell a cholofn un-waith yn unig. Mae'r rhifau sydd i fod yn y blychau s'yn amgaeedig gyda'r llinellau tywyll (neu'r caets) yn gorfod cytuno (mewn unrhyw drefn) i roi'r rhif a'r modd o'i gael sydd i'w weld yng nghornel bob caets e.e. pe byddai 2 gennych mewn caets o ddau, gallech gael cyfuniad o 1 a 4, 2 a 5, neu 3 a 6 mewn unrhyw drefn. Er mwyn hwyluso ychydig gallwch lenwi y caets unigol gyda'r rhif a roddir. Cymerwch ofal rhwng + a ÷




**"Croesi Allan" yw'r trydydd pôs y mis hwn.**

Croeswch allan un o'r ddau lythrennau sydd ym mhob sgwar. Os gwnewch hyn yn gywir fe gewch groesair cywir.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C / B | E / O | T / P | W / Y | R / M |
| O / R | | L / R | | E / H |
| A / S | N / T | U / A | R / M | L / O |
| I / N | | I / F | | T / Y |
| C / N | O / U | B / S | O / D | N / G |

**Y pos olaf ichwi yw Chwilrif mawr i'ch diddori.**

Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a 'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1-12.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 11 | 6 | | 9 | | | | 5 |
| | 2 | | 4 | | 7 | | 3 | | 9 | 11 | |
| 11 | 6 | | | | | 2 | | | | | |
| | | | 3 | | | | 12 | 8 | 4 | | |
| | 8 | 5 | 9 | | | | 7 | 1 | 11 | 12 | |
| | 4 | | | | 1 | 6 | 8 | 9 | | 2 | |
| | 11 | | 10 | 9 | 5 | 12 | | | | 3 | |
| | 9 | 6 | 1 | 7 | | | | 4 | 12 | 5 | |
| | | 12 | 8 | 3 | | | | 2 | | | |
| | | | | | 11 | | | | | 7 | 8 |
| | 10 | 8 | | 12 | | 7 | | 11 | | 4 | |
| 12 | | | | 6 | | 9 | 4 | | | | |

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Mis arall wedi gwibio heibio a'r Cardi Bach yn ein siopau unwaith yn rhagor. Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Da gweld bod rhif aelodau'r Clwb 200 yn cynyddu, er bod digon o le i sawl un arall wrth gwrs! Dyma'r manylion os nad ydych eisoes wedi ymaelodi - danfonwch siec i mi am £10 yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach', neu mae modd talu drwy system BACS, felly:- 40-46-27...... 91020765...... Clwb 200 Y Cardi Bach...... £10.
Cofiwch fod y gwobrau misol nawr yn £20 a £30!

Dyma enwau'r sawl sydd newydd ymaelodi:-

Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach
Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach
Iorwerth a Rhiannon Davies, Pencerrig, Efailwen
Mared a Heledd Williams, Bryneithin, Bryn Iwan

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Mehefin:-


£30 - 519 - Esme Williams, Rhydcoedbach, Glandwr
£20 - 159 - Anne Taylor, 57 St. James Street, Arberth

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,

*Rhian*

Annwyl ddarllenwyr

Yn ddiweddar yr ydym yn derbyn llawer o hysbysebion yn ddwy-ieithog yn hytrach nac yn hollol Gymraeg. Canllawiau Papurau Bro yw i'r cynnwys fod yn hollol Gymreig, felly gofynnir yn garedig i chi, os oes modd, i anfon hysbysebion yn Gymraeg yn unig. Diolch yn fawr am eich cyd-weithrediad. (Gol.)




## CACEN LEMWN

Cynhwysion:

- 4 owns o fenyn neu margarine
- 2 wy
- 6 owns o siwgwr
- Croen 1 lemwn
- 6 owns o fflwr (SR)
- 4 llwy ford o laeth

Dull:

- Curwch y menyn a'r siwgwr, ychwanegwch y wyau wedi eu curo
- Yna y fflwr a chroen y lemwn.
- Rhowch mewn tun bara (1 pwys)
- Pobwch am 45 -60 munud (180°C)

Pan fydd y gacen yn pobi, toddwch 3 llwy ford o siwgar eisin yn y sudd lemwn.
Arllwyswch dros y gacen ar ôl gwneud tyllau gyda sciwer.



## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

# Taith Gerdded

Bore dydd Sadwrn
14eg o Fedi 2024 am 10 yb

Dechrau a gorffen yng Nghapel Ramoth, Cwmfelin Mynach

Yr elw i'w rannu rhwng:
Sglerosis Ymledol (MS)
Ymchwil Parkinson
Meddygfa Taf, Hendygwyn

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469


W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma gyfle i chi ymarfer y treigladau dros y haf. Joiwch y tewi a pheidiwch anghofio'r eli haul.

## TREIGLADAU

Llenwch y bylchau yn y paragraff hwn:

Eleni fe ..............................(dethlir) hanner Can mlwyddiant Undeb Rygbi Gogledd Transvaal a'r ..............................(blwyddyn) nesaf dethlir ..........................................(canmlwyddiant) Bwrdd Rygbi De Affrica. Roedd awdurdodau rygbi'r ................(gwlad) felly yn awyddus iawn i ........................(denu) tîm ..........................rhyngwladol tebyg i'r Llewod i ....................(De Affrica)'r flwyddyn nesaf. Ond cyn i'r fath ...................(taith) fod yn .....................(posibl), roedd yn rhaid i'r Bwrdd Rhyngwladol sydd yn ....................(cyfrifol) am rygbi..........................(cael) ei ........................(gweld) yn ....................(cosbi) De Affrica am ................ (gwahodd) tîm 'Cavalier' Seland Newydd i ..................(teithio)'r wlad (yn) 1986. Mewn .................(cyfarfod) o'r Bwrdd Rhyngwladol yn Agen yn Ffrainc........................(mis) Tachwedd diwethaf, dywedwyd wrth ..........................(De Affrica) am ..................(peidio) â ..................(trafod) na...................(crybwyll) taith am .................(cyfnod ) o chwe mis, sef oddeutu hyd y tymor ...................(criced yn ..........................(De Affrica. Yna ar ddiwedd .....................(mis) Mawrth eleni, cyhoeddodd y Bwrdd Rhyngwladol y...............(byddai) De Affrica yn cael .......................... (caniatad) i wahodd chwaraewyr tramor i .....................(mynd) ar .................. (taith) i ................(De Affrica). 'Bocks Back' sgrechiodd .......................... (papurau)'r wlad yn dilyn y penderfyniad. Ond bu'r adwaith yn erbyn ..................(taith) tîm rhyngwladol i Dde Affrica'n ffyrnig o ........................... (gwrthwynebus).

Pryder ......................(llawer) yn awr yw mai troi yn erbyn y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol a .....................(gwnaiff) Bwrdd Rygbi De Affrica a ..................... (cyflymu)'r symudiad tuag at sefydlu rygbi'r undeb yn ......................... (proffesiynol), gan ..................(codi) dau ................(bys) at ........................ (gweddill) y byd rygbi.

*Aled Eurig, Barn, Mai 1988*

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

Ysgubor Bryncaerau
Llety clyd
Sanclêr
07870 100831

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Merched y Wawr – Rhanbarth Caerfyrddin



Mrs S Khawaja o Uned Cancr y Fron Peony, Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli yn derbyn siec o £5000 oedd yn cynnwys arian a godwyd mewn te prynhawn i 200 o aelodau a gwesteion yn neuadd Bronwydd ger Caerfyrddin a chyfraniadau eraill oddi wrth y rhanbarth ac unigolion. Yn y llun hefyd oedd Manjin Thomas, Rebecca Bassett, Helen Palferman, Catrin Evans, Amy Jones a Helen Evans sydd yn aelodau o staff yn yr uned gyda Mrs Khawaja.

Cyflwynwyd hefyd ffrâm o flodau gobaith a gafwyd eu crosio neu wau gan aelodau o Ferched Y Wawr ar draws Cymru fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o waith arbennig y gwasanaeth iechyd drwy gydol y pandemig ac ers hynny. Yn cynrychioli'r rhanbarth oedd Gwyneth Alban, Ann Phillips, Jane Morgan, Margarette Hughes, Eluned Walters, Julia Davies ac Eirlys Davies sef swyddogion , swyddog datblygu a chyfranwyr tuag at y te prynhawn. Diolchodd Mrs Khawaja i bawb a fu ynghlwm yn y weithgaredd mewn unrhyw ffordd.



### Cangen San Cler

Dymunwn yn dda i Beti sydd wedi symud i Gartref Glyn Nest yng Nghastell Newydd Emlyn gan obeithio iddi fod yn hapus yno.

Bydd y gangen yn ail-gychwyn ar ôl yr Haf ar nos Fawrth, Medi 10fed am 7 o'r gloch yn Yr Hen Ysgol. Bydd noson i gymdeithasu a gemau. Croeso i aelodau newydd.

### Clwb Gwawr Hendygwyn




Bu Clwb Gwawr Hendŷgwyn-ar-Daf yn ffodus iawn o gael ymweld â Jin Talog yn ddiweddar, a chafwyd croeso cynnes gan David ac Anthony. Cawsom glywed am hanes sefydlu eu busnes llwyddiannus, gan samplo eu jin bendigedig sydd yn cael ei gynhyrchu yn y ddistyllfa ar glos eu cartref yn Rhyd y Garreg Ddu.

Mae Jin Merywen Organig Talog wedi ennill sawl gwobr, yn lleol ac ar draws y byd, ac mae'r ddau sy'n gyfrifol amdano yn falch iawn eu bod yn cynhyrchu jin o'r safon uchaf, gan wneud y gwaith i gyd eu hunain, o gynhyrchu y jin, i labelu y poteli a'u dosbarthu.

Mae cyfraniad pobl lleol hefyd yn bwysig iddynt, o wneuthuriad y poteli yn Sir Benfro i'r gerdd gan Tudur Dylan a welir ar y label. Llongyfarchiadau i'r ddau am lwyddiant y jin, am eu hymroddiad i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg, yn ogystal â dod yn fuddugol yng nghystadleuaeth 'BBC Wales' Home of the year'. Diolch yn fawr iddynt am y croeso a'r sbort gawsom ni.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Doedd teitl nofel gyntaf y bardd Delyth George – **Sut i ddofi corryn? -** rywsut heb apelio adeg ei chyhoeddi ond yna cefais ei benthyg gan gymydog llengar ar faes carafannau ym Mhen-bre. Mae hon yn berl! Darllenwn ambell ran yn uchel i'r gŵr a hwnnw'n dweud ei fod yn swnio fel barddoniaeth. Mae'r arddull yn gyfareddol a'r penodau'n fyr – fel cerdd. Ysgrifennwyd y nofel mae'n debyg yn ystod y cyfnod clo pan oedd straen ac ofnau'n rhan fawr o fywydau bob dydd. Cafodd y syniad am y nofel pan roedd ei thad wedi dioddef salwch difrifol a'i mam yn chwilio am feddyginiaeth amgen. Mae'n stori swreal am fenyw ganol oed o'r enw Muriel sy'n mynd ar daith i geisio dod o hyd i ffordd i wella salwch ei gŵr a hynny cyn belled â Gwatemala. Mae'n ymwneud ag ofn, ofn marwolaeth a'r berthynas rhwng gŵr a gwraig. Does dim rhyfedd iddi ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn eleni.

Byddaf yn recordio *Pnawn da* yn ddyddiol ac yna'n gwylio'r rhaglenni gan neidio dros eitemau nad oes gennyf ddiddordeb ynddynt – gan ddal sylw ar ambell rysáit ac unrhyw eitem am lyfrau. Cyfweliad ag awdur newydd, sef Ffion Emlyn a'm denodd i brynu **Pen-blwydd Hapus?** Dyma ei nofel gyntaf ond bu'n sgriptio rhaglenni megis *Pobol y Cwm* a *Casualty* . Tybiais felly y byddai'r ddeialog yn ddifyr, ac felly'n wir. Mae Martha yn athrawes 32 mlwydd oed ac yn ystod swper i ddathlu ei phen-blwydd gyda'i rhieni mae'n derbyn newyddion syfrdanol. Mae'r nofel yn agor yn y presennol – *Rŵan* - ac mae gwaed ar ei dwylo ac yn gafael mewn cyllell. Yn y bennod nesaf awn yn ôl i'r gorffennol – *Cynt* – a'r penodau hyn wedi'u hadrodd gan Martha. Awn i Lundain, i Gaerfyrddin ac ardal Porthmadog a chwrddwn â nifer o gymeriadau difyr a hoffus ar y daith. Oes, mae llofruddiaeth i'w datrys ond mae cryn dipyn o hiwmor yma hefyd. Mae'r pendilio am yn ail bennod rhwng y presennol a'r gorffennol yn ennyn chwilfrydedd darllenydd – nofel ddirgelwch wahanol.

Nofel gyntaf awdur arall yw **Amser Drwg fel Heddiw** gan Iwan Meical Jones. Mae hon wedi'i lleoli yn ardal Llanrwst dros gyfnod yr Ail Ryfel Byd. Does dim dirgelwch na chyffro mawr ynddi ond mae'n darlunio bywydau cymeriadau yng nghysgod y rhyfel mor afaelgar ac fel y dywedir yn y broliant, dyma 'lenor galluog' a chefais fy swyno ganddi. Trafodir heddychiaeth a rhwygiadau'r gymdeithas.

Nofelydd profiadol, Myfanwy Alexander, yw awdur y bedwaredd nofel i mi ei darllen y mis diwethaf, sef **Coblyn o Sioe** a'r llun ar y clawr a'm denodd ati – fel un sy'n dwlu ar geffylau ac wrth fy modd yn gwylio arddangos y cobiau yn sioe Llanelwedd. Hon y bûm yn ei darllen ar goedd yn ddiweddar i *Lyfrau Llafar* gan ofni na fedrais wneud cyfiawnder ag acenion Maldwyn gyda'i *lodesi* a'r *cogie,* na'r iaith hynod liwgar! Dyma'i phumed nofel dditectif am yr Arolygydd Daf Dafis sydd a'i ferch yn arddangos merlen, Tinciwinci yn y sioe. Os ydych â'ch bryd ar fynd i'r sioe fyddwn i ddim yn argymell darllen hon cyn mynd. Mae pethe dychrynllyd yn digwydd ar Fryn y Ceffylau! Mae ffraethineb yma a digon o 'sbeis' ond roeddwn yn cymysgu braidd rhwng y cymeriadau niferus, y cysylltiadau rhyngddynt a'r plot carlamus!

## Lawnsio Cristion


Lawnsiwyd y Cristion diweddaraf, sef rhifyn cyntaf y golygyddion newydd yng Nghroesgoch, Sir Benfro fel rhan o weithgarwch Undeb Bedyddwyr Cymru.




Yn y llun o'r chwith i'r dde mae'r Parch. Judith Morris, aelod o fwrdd rheoli Cristion, Heulwen, Eurfyl a Sian, y tri golygydd newydd a'r Parch. Aled Davies, dylunydd a swyddog dosbarthu'r cylchgrawn.

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# Enillydd Sgwennu stori Radio Cymru

Llongyfarchiadau i Gruffudd Rooke a oedd yn fuddugol yng nhgystadleuaeth Sgwennu Stori Aled Hughes ar Radio Cymru. Y dasg oedd ysgrifennu stori dan y thema hud a lledrith. Beirniad oedd yr awdures Casia Wiliam. Mae Gruffudd yn fab i Anwen a Trefor ac yn ŵyr i Margaret Griffiths, Waunfach, Login.



Gruffudd yn siarad ar Radio Cymru
gydag Aled Hughes

## Dicw'r Ddraig

"Dere Trystan," gwaeddodd Tudur.

Dau fachgen anturus oedd wrth eu bodd yn chwarae yn y goedwig ger pentref Sychpant oedd Trystan a Tudur. Un diwrnod, daethant ar draws y goleuni mwyaf llachar a welwyd erioed, yn disgleirio fel pelydrau'r haul yn tasgu ymhobman. Yn y pellter roedd sŵn rhaeadr a sibrwd y coed yn yr awel ysgafn.

"Beth oedd y sŵn yna Tuds?" cwestiynodd Trystan.

"Pa sŵn? Glywais i ddim!" atebodd Tudur.

Wrth agosau at sŵn y rhaeadr gwelwyd draig ifanc yn gorwedd wrth ymyl pwll crisial-glir.

Draig yn wahanol i unrhyw un roedden nhw erioed wedi'i gweld, roedd ganddo raddfeydd amryliw fel yr enfys, ond doedd ganddo ddim breichiau na choesau.

"Helo," meddai Trystan gan gamu yn araf. "Paid â bod ofn."

Agorodd y ddraig ei llygaid, a dechreuodd siarad mewn llais addfwyn.

"Dicw ydw i. Rwy'n byw yma ar fy mhen fy hun, dwi methu symud yn bell," dywedodd yn ddigalon.

Chwaraeodd y ddau gyda Dicw, gan ddarganfod ei allu i wneud triciau hud.

Mewn cyffro addawodd y bechgyn ddychwelyd gyda chymorth o'u pentref.

Yn ôl yn y pentref, bu Trystan a Tudur yn dweud wrth bawb am eu hantur. Fodd bynnag, roedd y pentrefwyr yn amheugar ac yn ofnus. Roedden nhw wastad wedi cael eu dysgu bod dreigiau yn greaduriaid peryglus.

"Rhaid i chi gadw draw o'r ddraig," rhybuddiodd tad-cu Trystan. "Fe allai ddod â risg mawr i ni i gyd."
Yn ddigalon, dychwelodd y ddau i weld Dicw. Wrth iddynt gerdded drwy'r goedwig hudolus, eu llwybr wedi'i oleuo gan olau'r haul, clywsant larwm perygl y pentref yn sydyn, yn atseinio drwy'r coed.

"Mae rhywbeth o'i le," meddai Tudur, wrth gyflymu ei gyflymder.

Pan gyrhaeddon nhw gyrion y pentref, gwelon nhw ddraig ddu enfawr, ei raddfeydd mor dywyll â'r nos, yn ymosod ar eu cartref. Roedd fflamau'n llenwi'r awyr, a rhedodd y pentrefwyr mewn ofn.

"Mae'n rhaid i ni helpu," anogodd Trystan gan droi at Dicw. "Wyt ti'n gallu helpu?"
Gyda sglein yn ei lygaid, gwenodd a nodiodd. Helpodd y bechgyn ef yn ôl i'r pentref. Pan gyrhaeddon nhw, fe ddaeth Dicw wyneb yn wyneb â'r ddraig ddu.

Yna, gyda rhuad nerthol, byrstiodd golau euraidd o'i gorff, gan greu tarian enfawr i gysgodi'r pentref.

Roedd y ddraig ddu, wedi'i dychryn gan gryfder a hud Dicw. Gan ddefnyddio ei holl ddewrder, lledodd golau llachar ar draws y pentref a hel ofn ar y ddraig gas, sgrechiodd mewn poen a hedfan i ffwrdd.

Rhyfeddodd y pentrefwyr. Achubwyd eu cartrefi, diolch i ddewrder y ddraig yr oeddent wedi'u hofni.

"Mae Dicw yn arwr!" bloeddiodd Tad-cu.

Yn ddiolchgar, penderfynodd y pentrefwyr i helpu Dicw ymhob ffordd y gallent. Gyda sgiliau gof y pentref a saer coed, fe wnaethant grefftio coes a breichiau newydd Dicw.

Pan roddodd gynnig arnyn nhw, symudodd gyda rhyddid, yn wên o glust i glust. O'r diwrnod hwnnw ymlaen, daeth Dicw yn warcheidwad annwyl y pentref.

Roedd Trystan a Tudur yn falch o alw Dicw yn ffrind. Roedd y ddraig oedd unwaith yn unig wedi dod o hyd i'w le, ac ynghyd â Trystan a Tudur, roedd yn byw'n hapus, gan wybod fod pawb yn ei garu.

*Gruffudd Llewelyn Rooke*




Dyma lun o glawr y stori a luniwyd gan yr artist Joshua Morgan.

Menter Gorllewin Sir Gâr

**Gŵyl Canol Dre 2024:**

Am y pumed tro eleni, daeth Gŵyl Canol Dre yn ôl i Barc Myrddin yng nghanol tref Caerfyrddin ar y 6ed o Orffennaf. Bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol, gyda thorf o 4,500 wedi dod i fwynhau'r arlwy.

Trwy gydol y diwrnod cynhaliwyd llu o weithdai ar draws pedair pabell yr Ŵyl gan gynnwys: gweithdai drama ac animeiddio, gemau fideo, sesiynau stori a chân, ioga babi, crefftau gyda'r Amueddfa Wlân, sesiwn dŵdlo gydag Oriel Odl, adweitheg gyda Meleri Brown, barddoni gydag Anni Llŷn, clocsio gyda Tudur Phillips a sesiwn holi ac ateb gyda chyn gôl-geidwad Cymru, Neville Southall. Does dim dwywaith, roedd rhywbeth at ddant pawb ar gael. Yn ogystal, roedd yr ardal chwaraeon gydag OT Coaching yn boblogaidd unwaith eto wrth i ni wylio'r plant i gyd yn rhedeg, chwarae a chwysu! Ond, nid dyna'r unig ardal actif ar y cae, gan fod beiciau Ynni Da yn brysur drwy'r dydd gyda phawb yn pedlo fflat owt!

Un ardal a gafodd ei ddatblygu ymhellach yn yr Ŵyl eleni, diolch i 100% Sir Gâr a Chyngor Sir Gâr, oedd yr ardal fusnesau. Bwriad yr ardal oedd cynnig ffenest siop i fusnesau lleol werthu a hyrwyddo eu nwyddau. Pleser oedd gweld 20 stondin yn llawn nwyddau o bob lliw a llun. Rhaid hefyd diolch i'r mudiadau a ddaeth a'u stondinau draw i'r Ŵyl er mwyn cefnogi.

Yn ogystal, bu'r ddwy lwyfan yn fôr o ganu a dawnsio. Ar y llwyfan berfformio, cafodd 14 ysgol a Chlwb Ffermwyr Ifanc Sir Gâr y cyfle i ddangos eu doniau a thalent lleol ein Sir ni, cyn i Siani Sionc gloi'r prynhawn â jambori i'r holl blant brwd. Ar ben arall y cae, roedd y Brif Lwyfan wedi'i lleoli a chawsom y fraint o groesawu 10 o fandiau arbennig Cymru i'n plith.
Roedd y bandiau yn gymysgedd o'r ifanc a'r adnabyddus, gydag Eden yn cloi'r noson, gan orffen y diwrnod ar uchafbwynt.
Ond, dim ond megis dechrau oedd y noson, wrth i ni am y tro cyntaf eleni parhau â'r canu a'r dawnsio oddi ar y cae. Cynhaliwyd Gig Canol Dre yn syth wedi'r Ŵyl yn Cwrw, Caerfyrddin. Bu Eadyth a Dadleoli yn diddanu gan gadw'r egni a'r mwynhad yn uchel.

Hoffai Menter Gorllewin Sir Gâr, trefnwyr yr Ŵyl, ddiolch i bawb a gefnogodd Gŵyl Canol Dre mewn unrhyw ffordd, mae hi wir yn rhestr hirfaith! Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yn ôl ar y cae ymhen blwyddyn.








Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:-
01994 240857

# BLAENWAUN

**Capel Moriah**

Diolch i Mr Lyndon Lloyd am ei wasanaeth mewn cymun undebol ar Sul, Mehefin 23ain. Hyfryd oedd croesawu aelodau Bryn Iwan i'r oedfa. Dewisodd Mr Lloyd thema amserol iawn " Y Beibl yw maniffesto y Cristion."

Trefn yr oedfaon.
Gorffennaf 21ain. Oedfa 2 o'r gloch. Mrs Elonwy Phillips.
Gorffennaf 28ain. Cymun 1.30 Parchedig Gareth Ioan.
Dim oedfa mis Awst.
Medi 1af. 10.30 Parchedig Gareth Ioan.
Medi 22ain. Cymun undebol Blaenycoed 2 o'r gloch.
Hydref 6ed Oedfa o Fawl Nebo 10.30. Llywydd Parchedig Gareth Ioan.

Mae yn draddodiad bellach bod eglwysi Moriah, Bryn Iwan a Blaenycoed yn trefnu ymweliad. Eleni tro Moriah oedd trefnu a phenderfynwyd ymweld â Chanolfan a Gerddi Hywel Dda yn Hendygwyn ar dâf. Daeth hanner cant o aelodau at ei gilydd i werthfawrogi'r adeilad â'r gerddi a dysgu llawer am y Brenin. Ein tywyswyr oedd Val Davies a Margarette Hughes aelodau o bwyllgor y ganolfan. Cafwyd oedfa fer i ddechrau o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan. Croesawodd Val bawb a rhoddodd gyflwyniad o sut daeth y safle i fodolaeth, cyn ein rhannu yn ddau grŵp. Arhosodd un yn yr adeilad a'r ail yn mynd allan i'r ardd. Olrheiniodd Val hanes y Brenin gan ganolbwyntio sut daeth yn Frenin. Soniodd hefyd am sut cafodd Hendy gwyn ar daf yr enw a thebygrwydd safle y tŷ gwyn. Manteisiwyd wedyn ar grwydro'r adeilad a phrofi o'r wybodaeth ar y waliau. Hyfryd oedd cael hanes yr ysgrifau oedd yn cynnwys y cyfreithiau a sut daethant i fodolaeth. Synnwyd at fanylder Llawysgrif Peniarth 28, yr unig un o'r ysgrifau sydd yn cynnwys lluniau.

Canolbwyntiodd Margarette ar arwyddocâd y gerddi - chwech i gyd. Mae gan bob gardd goeden arbennig sy'n adlewyrchu ystyr symbolaidd coed i fobl Celtaidd. Diddorol iawn oedd trafod y gwahanol gyfreithiau, sawl un ohonynt yn dod a gwên i'r wyneb.

Mwynhaodd pob un a nifer ohonynt yn ymweld am y tro cyntaf. Diolchodd Meinir, ysgrifennydd Moriah, i bwyllgor y ganolfan am baratoi'r adeilad, i Val a Margarette a ranodd eu gwybodaeth mewn ffordd mor ddiddorol ac i ysgrifenyddion Bryn Iwan a Blaenycoed am ei help gyda'r trefniadau.

Teithiwyd wedyn i'r "Roadhouse" i gael pryd o fwyd a chymdeithasu ymhellach. Diolch i Lucas Davies a'i staff am groeso twymgalon a bwyd blasus a trefniadau gwych, diweddglo arbennig i brynhawn i gofio. Diolch i bawb. Cofiwch hefyd bod y Ganolfan yn dathlu penblwydd arbennig blwyddyn nesaf. Edrychwch allan am y dathlu.

Fel eglwys rydym yn falch i weld bod Jane Evans, Penddôl adref. Pob dymuniad da iddi.



Criw y capeli yn gwrando ar araith Val



Margarette yn ein tywys o amgylch y gerddi

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
**Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.**
**Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.**
Ffôn: 01994 419230

G WILLIAMS
a'i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

# MEIDRIM

**Henoed**

Daeth 23 o aelodau ynghyd i fwynhau te mefus blasus dros ben yng Nghaffi Beca, Efailwen. Roedd y bwyd yn hyfryd a chawsom amser da yng nghwmni ein gilydd.

Cafwyd trafodaeth fer am y wibdaith ar Awst y 6ed. Byddwn yn ymweld â 'Llaeth Preseli Milk' a Gelato yng Nghlarbeston Road, galw heibio Arberth cyn cael swper yn y Bush, Robeston Wathen. Bydd y bws yn gadael Meidrim am 12 y.p. Yn rhoi raffl ar y trip - Glyn James, Meinir Thomas, John Lewis a Patsy Lewis.

# PWLL TRAP

Cydymdeimlwn â Gary ac Eleri Jones, Clos Nathaniel a'r teulu ar farwolaeth tad Gary, sef Tegryn Jones o Gaerfyrddin.
Dymunwn benblwydd hapus yn 80 oed ar Awst 3ydd i Keri Thomas, Four Winds, Heol Bethlehem.
Dymunwn wellhad buan i Eifion Edwards, Gorsfach a dreuliodd rhai diwrnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Bethlehem Newydd**

Cafwyd oedfa fendithiol dan ofal y Parch Desmond Davies ar Fehefin 9fed.

Ar nos Fercher, Mehefin 12fed cynhaliwyd Cwrdd Chwiorydd Gorllewin Caerfyrddin ym Methlehem Newydd. Llywyddwyd gan Jean Lewis o Gapel y Graig, cyhoeddwyd yr emyn cyntaf gan Hiefena a chymerodd Alison ac Eirlys o Gapel y Graig at y rhannau arweiniol. Roedd cyfnod llywyddiaeth Jean yn dod i ben a diolchodd am y fraint o fod yn llywydd ac i bawb a oedd wedi ei chefnogi yn y gwaith. Trosglwyddodd y Beibl i'r llywydd newydd, sef Marian Thomas o Fethlehem Newydd. Diolchodd hi am yr anrhydedd o gael bod yn llywydd unwaith eto ac yna cafwyd cyflwyniad a baratowyd gan Marian gan chwiorydd Gofalaeth Bethlehem Newydd a Gibeon ar "Merched sy'n ysbrydoli". Cyhoeddwyd yr emyn olaf gan Mair a thraddodwyd y fendith gan Y Parch. Beti-Wyn James. Cyfeiliwyd drwy'r oedfa gan Hefina Jones.

Trefnwyd casgliad ar y noson tuag at Plant Dewi a Lloches y Menywod. Daeth cyfraniadau ychwanegol i fewn gan gynnwys oddi wrth Sied Dynion Sanclêr ac fe drosglwyddwyd £175 yr un i'r ddwy elusen. Diolch i bawb am roi mor hael.



Y chwiorydd fu'n cymryd rhan yn y Cwrdd Chwiorydd. Yn absennol o'r llun mae Hefina Jones

Cafwyd oedfa dan ofal Mr Lyndon Lloyd ar Fehefin 23ain a'r Dr Ryland Jones fu'n gwasanaethu ar Fehefin 30ain.

Trefnwyd noson yng nghwmni Cleif Harpwood a Geraint Cynan ar Fehefin 26ain a roedd yn noson i'w chofio. Dyma'r gyngerdd cyntaf i'w chynnal yn yr adeilad ar ei newydd wedd. Mi ddaeth tua 90 o bobl i wrando ar y gerddoriaeth a'r hanesion. Cefnogwyd y noson gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Gar. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Annalyn Davies oedd a gofal yr oedfa ar Orffennaf 7fed a chafwyd oedfa ddiddorol ar y thema Pawb a'i ddawn a Phwy fydd yma mhen can mlynedd.

Dymunwn yn dda i Cynwyl ac Eilir Davies, Ardwyn, pan fyddant yn symud i fyw ym Meisgyn ddiwedd y mis. Mae eu cyfraniad i Fethlehem Newydd wedi bod yn glodwiw, y ddau yn ddiaconiaid ac wedi arwain oedfaon, gan gynnwys gweinyddu'r Cymun. Mae Eilir yn Arweinydd y Gân a Chynwyl wedi chwarae rhan fawr, ar hyn o bryd yn trefnu system sain y capel bob Sul ac wedi defnyddio ei sgiliau technegol i gysodi a pharatoi'r adroddiad blynyddol a pharatoi a llungopio llwyth o waith dros y blynyddoedd. Fe fyddant yn gadael bwlch enfawr ym Methlehem Newydd a gwelir ei heisiau yn fawr. Pob dedwyddwch iddynt yn eu cartref newydd yn nes at eu merch, Non a'r teulu.

**Tŷ Croeso**

Mae partneriaeth gref wedi'i ffurfio rhwng Tŷ Croeso â Sied Dynion Sanclêr. Maent yn cyfarfod yno bob bore

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP



dydd Iau er mwyn cael cyfle i rannu gofidiau a chymdeithasu. Maent yn barod iawn eu cymwynas ac yn barod i droi eu llaw at gymaint o bethau.

Bydd y porfa tu flaen y capel yn cael ei dorri'n rheolaidd ganddynt; y chwynnu, a'r prosiect diweddaraf yw glanhau a pheintio'r railings o flaen y capel. Diolch iddynt.

# SANCLÊR

Llongyfarchiadau i Nia Davies, Fferm yr Hendre a Luke Briscoe ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

....hefyd i Kevin a Janette Jenkins a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

....hefyd llongyfarchiadau mawr i Hannah Richards, Lôn Hafren, a fydd yn cael ei hurddo yn aelod o Orsedd Y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf ym mis Awst.

Cydymdeimlwn â Wyn ac Enfys Davies a'r teulu, Hillston, ar farwolaeth tad Wyn, sef Gareth Davies o Alltwalis.

**Y Gât**



Pleser oedd croesawu Swyddogion Iaith Ysgol Griffith Jones i'r Gât gyda'i hathrawes Mrs Mai Giles er mwyn iddynt gyfweld y dysgwyr Cymraeg newydd sy'n dod i'r sesiwn wythnosol o Goffi a Chlonc yn Y Gât. Mae Ysgol Griffith Jones eisoes wedi ennill gwobr efydd ac arian am ei hymdrechion i hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel rhan o Siarter Iaith y Cyngor Sir. Yn awr maent yn ymgeisio am y wobr aur. Pob lwc iddynt a dymuniadau da wrth iddynt barhau gyda'u rôl bwysig o fewn yr ysgol.

**Cyngor Tref**



Daeth ymwelwyr pwysig iawn, sef Cyngor Ysgol Ysgol Griffith Jones, i weld Siambr y Cyngor Tref a chyfarfod â'r Maer, y Cyng. Annalyn Davies. Cawsant gyflwyniad i waith y Cyngor Tref a chyfle i ofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau. Roedd yn brynhawn diddorol yn eu plith. Cynghorwyr y dyfodol!

**Bore Coffi**



Cynhaliodd Tafarn Gymunedol y Santa Clara, Sanclêr, fore coffi ar ddechrau Wythnos Unigrwydd. Pleser o'r mwyaf oedd gan Faer y Dref i alw i mewn. Mae'n syndod i feddwl faint o bobl unig sydd ac mae cynnal rhywbeth cymdeithasol o'r fath yn fuddiol dros ben.

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Sioe Amaethyddol CFfI



Cafodd Maer y Dref dipyn o sbort a sbri yn Sioe Amaethyddol Clwb ffermwyr Ifanc Sanclêr. Gwelodd bod Maer arall yno yr un sbit â hi! Un o'r ymgeiswyr yng nghystadleuaeth gwneud Bwgan Brain ond ni chafodd wobr. Braint, hefyd, oedd cyflwyno siec i'r Sioe ar ran Cyngor Tref Sanclêr. Diolch am ddiwrnod llwyddiannus ac am yr holl waith caled gan bawb o flaen llaw.

**Carnifal San Cler**



Bu carnifal Sanclêr yn llwyddiant mawr eleni eto a braf oedd i'r Dirprwy Faer, y Cyng. Owain Grant gyflwyno siec iddynt ar ran Cyngor Tref Sanclêr. Diolch i bawb a weithiodd mor galed er mwyn sicrhau diwrnod o hwyl i bawb ei fwynhau.

## *Priodas Dda*



Dymuniadau gorau i Elan (Ward,) Llys Newydd, a Rhodri ar eu priodas yng Ngwesty'r Cawdor, Llandeilo ar Fehefin 8fed.

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Nacro connecting carmarthenshire | cysylltu sir gar

Cysylltu Sir Gar Nacro

Connecting Carmarthenshire

## St Clears

### Community Wellbeing Drop In

Bydd sefydliadau ar gael i siarad â dinasyddion

Organisations will be available to speak with citizens

**Dydd Gwener olaf y mis**

**Last Friday of the month**

28/6/24, 26/07/24, 30/08/24, 27/09/24, 25/10/24, 29/11/24, 20/12/24

*E-bost / Email:communityhub@nacro.org.uk*

---

## Pethau Olyv

Tir Dewi SUPPORT

Hoffwn gyhoeddi

Sioe Ffasiwn Elusennol sydd ar ddod er budd Tir Dewi.

Cerddoriaeth gan

Cor Clwb Rygbi Castell Newydd Emlyn

Tocyn £20

Raffl y Wobr Fawr, Prosecco

Hydref 18fed

7y nos yn Ysgol Griffith Jones, Sanclêr

Tocynnau ar gael o Pethau Olyv, Mermaid Buildings, Sanclêr

# BANCYFELIN

## Pererindod yr ofalaeth



Diwrnod hyfryd ar ddydd Sul, 23ain Mehefin ar bererindod Gofalaeth Bancyfelin a Chaerfyrddin. Mwynhawyd paned a danteithion blasus yn neuadd Cwman, diolch i wragedd Brondeifi a chyfle i wrando ar sgwrs ddiddorol am waith Tir Dewi gan Catrin Griffiths.

Yn dilyn picnic ar ben y mynydd aethom ymlaen i Soar y Mynydd lle cynhaliwyd oedfa dan arweiniad Y Parchg Beti-Wyn gyda chymorth Natalie Morgan a'r Parchg Tom Defis. Rhaid oedd stopio am hufen ia ger Llyn Brianne ar y ffordd adref cyn mwynhau swper blasus tu hwnt yn y New Cross, Dryslwyn. Diwrnod ardderchog a chwmni da.

## Capel Bancyfelin



Llongyfarchaidau i Veronica Evans a Trefina Jones a etholwyd yn Flaenoriaid newydd yng Nghapel Bancyfelin. Bydd y y ddwy yn cael eu hordeinio ym mis Tachwedd. Pob hwyl a bendith iddynt yn y gwaith.




Pleser gan y Parchg Beti Wyn oedd cyflwyno copi yr un o'r Beibl i blant blwyddyn 6 Ysgol Bancyfelin ar ran Capel Bancyfelin er cof am y diweddar Sallie Walters - un o ffyddloniaid yr Achos a chyn ddisgybl o'r ysgol.

## Mabolgampau MIC





Cafodd blant Ysgolion Sul Cana a Chapel Bancyfelin lawer o hwyl yn cymeryd rhan ym mabolgampau MIC (Menter Ieuenctid Cristnogol Sir Gar) yn Neuadd Bronwydd yn ddiweddar. Diolch i bawb a oedd yn gyfrifol am drefnu noson lwyddiannus iawn.



the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

**01994 240705 / 240055**

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol

15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

**Ysgol Sul Cana**



Mwynhaodd plant Ysgol Sul Cana gemau a phicnic i ddweddu tymor da o waith yn yr Ysgol Sul. Diolch iddynt, i'w rhieni ac i'r athrawon Ysgol Sul.

## Gibeon

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Ann Jones, Hafan Deg, a'r teulu ar farwolaeth sydyn ei chwaer, sef Gwenda Rees o Saundersfoot.

....hefyd â Eryth a Lloyd Davies, Heol Salem, a'r teulu ar farwolaeth brawd Eryth, sef Talfan Hughes.



Gorffenwyd tymor yr Ysgol Sul gyda phicnic a chwarae-on ar Orffennaf 7fed. Dyma'r plant yn mwynhau yn yr heulwen. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn ar Fedi 1af am 10.30 o'r gloch, croeso i aelodau newydd.

**Undeb yr Annibynwyr**

Llongyfarchwn Annalyn ar gael ei hethol yn Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr. Mae hon yn swydd bwysig gyda'r Undeb a llongyfarchwn hi ar yr anrhydedd arbennig hwn. Fe fydd yn cychwyn ar y gwaith yng nghyfarfodydd yr Undeb a gynhelir yn y De-Ddwyrain ddechrau Gorffennaf. Mae'n fraint i ni fel eglwys fod Cadeirydd y Cyngor o'n plith!

**Henoed**



Y siaradwr gwadd i gyfarfod mis Mehefin Henoed Bancy-felin oedd Tara Fisher a ddaeth atom i'n goleuo am Fasnach Teg. Cafwyd araith ddiddorol gan-ddi am waith eang Masnach Teg a sut mae'r mudiad yn sicrhau prisiau teg i ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd dramor. Eglurodd beryglon ffasiwn cyflym hefyd a beth sy'n cael i'w wneud i'w osgoi. Pwysleiswyd bod rhan gyda ni gyd i chwarae i sicrhau tegwch i gynhyrchwyr bwyd ac i ddiogelu'r amgylchfyd.

**Carnifal Bancyfelin**



Ymunodd Capel Bancyfelin yn yr hwyl o greu bwgan brain adeg Carnifal y pentref eleni. Tybed pwy mae'r bwgan brain yn portreadi? !

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk



Llongyfarchiadau i Bwyllgor Neuadd Bancyfelin am drefnu diwrnod Carnifal llwyddiannus arall eleni. Pleser o'r mwyaf fel Maer y Dref, oedd cyflwyno siec i Colin Pearson ar ran Cyngor Tref Sanclêr. Diolch i bawb am yr holl waith caled a fu i baratoi ar gyfer y dydd.

# LLANGYNIN

Pencampwr Bowlio



Llongyfarchiadau mawr i Nigel Davies, Llain Deg, ar ennill cystadleuaeth bowls agored i ddynion. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Hwlffordd dros gyfnod o 5 diwrnod o Orffennaf 1af – 5ed. Derbyniodd Nigel wobr o gwpan sialens a £100. Da iawn Nigel.

**Gwellhad buan**

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Geraint Jones, Carreglwyd, yn dilyn llawdriniaeth yn ysbyty Werndale yn ddiweddar.

Da clywed bod Jim Martin, Brychan, sydd wedi treulio misoedd lawer yn ysbyty Glangwili, bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Gofal Dol-y-Felin, Sanclêr. Pob dymuniad da iddo.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Neil a Mary Edwards, Pleasant View, a'r teulu i gyd ar farwolaeth chwaer i Neil, sef Mrs Pat Reckman o Rydaman. Bu farw Pat ar Orffennaf 4ydd. Cofiwn am y teulu i gyd yn eu colled.

**Pen blwydd**



Llongyfarchiadau mawr i Berwyn Jordan Moffat , Blaenpant, a fydd yn 3 oed ar Orffennaf 25 ain. Pen blwydd hapus i ti oddi wrth Mam, Dad ac Elin dy chwaer fach – heb anghofio Gruff y ci, wrth gwrs!

**Llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i Teleri Gwen Lloyd, merch Angharad a Stuart a chwaer i Elin Haf, am ennill yr 2il wobr yn y gystadleuaeth lefaru ar gyfer disgyblion blwyddyn 2 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod eleni. Llongyfarchiadau iddi hefyd am ddod yn 1af yn y gystadleuaeth Grŵp Llefaru gydag Adran Bro Taf. Dymuniadau gorau a chariad mawr oddi wrth Mamgu a Datcu Erw Ddôl, Wncwl Rhydian , Anti Laura a Caleb.



**Clwb 60 Llangynin**

Ar brynhawn Iau, 13eg o Fehefin ac ystyried y tywydd gwlyb a gwyntog, daeth nifer lluosog ynghyd i Neuadd y Bryn i'r cyfarfod misol. Y gwestai gwadd y tro hwn oedd y Dr Glan Rees o Gaerfyrddin, yn enedigol o Feidrim ac wedi arloesi yn y byd Meddygol yn arbenigo ar waed.

Mae bellach wedi ymddeol o'i swydd fel Pennaeth a Gwyddonydd Biofeddygol yng Nglangwili o dan hen Ymddiriedolaeth Sir Gaerfyrddin. Roedd yn gyfrifol am yr Adran Haemotoleg, Trallwysiadau Gwaed,







Imiwnoleg a Phlebotami. Mae wedi ymwneud â nifer o ymchwiliadau cyn ac ar ôl ymddeol o'i swydd llawn amser. Roedd yn aelod o'r Tim Cyngor Ymchwilio Meddygol oedd yn ymchwilio i effaith 'aspirin' yng nghlefyd y galon. Profwyd bod 75mg yn effeithiol iawn. Yn ddiweddarach roedd, ac mae'n dal i fod, yn Ymddiriedolwr o 'St. David's Medical Foundation' ym Mhrifysgol Meddygol Abertawe. Fe'm gwefreiddiwyd gyda'i holl wybodaeth a'r gwaith pwysig mae wedi gyflawni sydd mor llesol i ddynoliaeth. Diolchwyd i Glan am brynhawn mor ddiddorol ac addysgiadol. Margaret a Myra oedd yng ngofal y te gydag eraill yn eu cynorthwyo. Mary Edwards enillodd y raffl. Y trip dirgel, blynyddol fydd ym mis Gorffennaf.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Euros Jones Evans a Mrs Annalyn Davies am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn. Diolch hefyd i Euros am gyflwyno copi o'i gyfrol "Gweddio'r Salmau" fel rhodd i Galfaria, gan taw yma yng Nghalfaria wnaeth ddarllen salm am y tro cynta.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Medi:
1af: Lyndon Lloyd - Cymun am 2 o'r gloch
15fed: Tudur Dylan - Cwrdd am 2 o'r gloch
29ain: Arwel Evans - Cwrdd am 10.30 o'r gloch

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i Beti James, Coedllys sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei chlun yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau hefyd i Tudur Lewis, Bro Beca sydd wedi dychwelyd i'r gwaith erbyn hyn ac i Mary Llewellyn, Garth sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Apel Talentau Gobaith - Zimbabwe**

Trosglwyddwyd swm o £200 i apel "Talentau Gobaith" Undeb Bedyddwyr Cymru yn ddiweddar, er mwyn cynorthwyo trigolion Zimbabwe sy'n byw drwy gyfnod o galedi enbyd ar hyn o bryd.

**Taith Gerdded**

Cynhelir taith gerdded noddedig blynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda ar fore Sadwrn, Medi 14eg - dechrau o Gapel Ramoth, Cwmfelin Mynach am 10 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i gael cwmni gymaint a phosib o'n haelodau er mwyn cefnogi elusennau Sglerosis Ymledol ( M S ), Ymchwil Parkinson a Meddygfa Taf, Hendy Gwyn.

**Dydd Agored Cartref Glyn Nest**

Cynhelir dydd agored Cartref Glyn Nest ar brynhawn Mercher, Awst 28ain am 2 o'r gloch. Dewch i gefnogi os gwelwch yn dda.

## Cylch Meithrin Ffynnonwen

Plant wedi mwynhau cymeryd rhan ym mhrosiect creadigol Mudiad Meithrin. Diolch I Lisa a Kate am ddod i'r cylch dros gyfnod o 7 wythnos i wneud y sesiynau yma.



## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Cafwyd noson hwylus iawn mewn Noson Gwis dan ofal Lyn a Ray Burnel. Mawr fi'r cystadlu a'r tîm buddugol oedd Paul a Sarah Robinson, merch Sarah a'i phartner a Hywel a Sonia Passey.

Rydym yn edrych ymlaen i'n Ffair Hâf ar Sadwrn 20fed Gorffennaf gyda stondinau, mabolgampau, ras peli a barbeciw. Cofiwch gefnogi.

Mae noson gymdeithasol wedi ei threfnu ar gyfer nos Wener, 16eg Awst am 7.30. Os am rhagor o fanylion cysylltwch â'r ysgrifennydd. Cofiwch gefnogi.

Rydym fel cymdeithas am ddiolch i Beti James, Coedllys sydd newydd ymddeol fel trysorydd ar ôl gwasanaeth

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

hir. Hefyd adferiad buan iddi ar ôl llawdriniaeth.
Gan bwyll nawr Bet. Pob dymuniad da i'n trysorydd newydd Cathy O'Keefe ac i Sarah Robinson ein is-gadeirydd newydd. Pob hwyl iddynt yn ei swyddi newydd.

# CWM MILES

Oedfa mis Medi
22ain: Cymun 2 o'r gloch - Parchg Euros Jones Evans.

# LLANDYSILIO

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i Sadie Davies a fydd yn 90 oed ar yr 8fed o Fedi.
.....hefyd, i Marlene Phillips a fydd yn 90 oed ar 12fed o Fedi.
….hefyd i Susan Richards (chwaer Sonia a Julian Robinson) ac i'w gŵr Howel, y ddau wedi dathlu penblwydd yn 60 oed yn ddiweddar.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i William ac Olivia Williams ar enedigaeth mab yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**

Trist clywed am farwolaeth Peter Thomas Rees, Pencoed, Llandysilio yn 75 oed. Cyn athro Mathemateg yn Ysgol Y Frenhines Elizabeth, Caerfyrddin. Annwyl frawd a brawd-yng-nghyfraith Tony ac Ann; cefnder hoffus Delyth, Peat, Lionel, Hazel, Janet, Hywel, Gareth, Huw, Owain, David, Marian a'r diweddar Jeff a Meurig. Ffrind triw i'w gyd-fyfyrwyr, cyd-weithwyr a chymydogion. Bydd colled enfawr ar ei ôl. Derbynnir rhoddion os dymunir tuag at Cymdeithas Caeau Chwarae Llandysilio a'r Cylch, trwy law Ken Davies a'i Feibion, Trefnwyr Angladdau, Clunderwen.

.....hefyd cydymdeimlwn â theulu Alice Marion Thomas a fu farw'n dawel ddydd Mawrth, 2ail Gorffennaf, yng Nghartref Gofal Waungron, HendyGwyn. Priod hoff y diweddar Percy, mam addfwyn i Roy a Lon a mam-yng nghgfraith barchus Dewi, mamgu a hen-famgu gariadus. Rhoddion os dymunir at caeau Chwarae Llandysilio a Clunderwen, trwy law Ken Davies a'i Feibion, Trefnwyr Angladdau Clunderwen.

….hefyd, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Val Garrod, Brynmaen, Llandysilio, a fu farw yn sydyn ar y 1af o Orffennaf. Priod hoff Phil, mam dyner a mamgu gariadus.

**Llongyfarchiadau**



Da iawn i Peggy Ann a Poppy Hammersley, ar chwarae piano yn Rhos-y-Gilwen yn y Parti Piano blynyddol ar ddydd Sadwrn, 6ed o Orffennaf. Cafwyd prynhawn oedd yn llawn talent gyda'r plant. Diolch i Julie Garnham, Ysgol dysgu piano, ac i Annie Hammersley.

# CLUNDERWEN

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i Wendy Morris a oedd yn 60 oed ar 15ed o Fehefin.
...hefyd i Michael Roblin a fydd yn 70 oed ar Awst 24ain.

**Graddio**



Llongyfarchiadau i Angela Prickett sydd wedi graddio o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gyda MA yn y Celfyddydau mewn Addysg (Cymru), yn arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd yn rhan o'r garfan gyntaf i astudio'r pwnc hwn o'r gyfres newydd o gymwysterau proffesiynol, sydd wedi'u datblygu ar y cyd a'u cyd-ddarparu gan bob Prifysgol ledled Cymru a'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Sioe Clunderwen**

Cynhelir Sioe Clunderwen eleni ar ddydd Sadwrn, Awst 31ain yng nhae Parc y Llwyn a Neuadd Clunderwen. Am fwy o fanylion ewch i www.clunderwenshow.org neu gweler ar dudalen Facebook 'Clunderwen & district Young Farmers show Society'.

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Cymdeithas Sioe Ffermwyr Ifanc Clunderwen a'r Cylch





# EFAILWEN

**Clwb Croshio**



Dyma lun o ferched Clwb Croshio Beryl George wedi iddynt fwynhau cinio yn ei chwmni yng Nghaffi Beca. Prynhawn hyfryd yn dal i fyny a'n gilydd.

**Graddio**



Llongyfarchiadau gwresog i Rhodri Lewis, gynt o Bro Beca ar ennill Gradd Meistr Mewn Gwaith Ieuenctid ac Addysg Gymdeithasol yr haf yma.

Hefyd, llongyfarchiadau i Kay Mathias, Garnwen ar ennill Gradd Meistr Mewn Gwaith Ieuenctid ac Addysg Gymdeithasol.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau i Gethin James, Arosfa, Bro Deirian ar ei ddyweddiad â Magi Davies o Bylchau, ger Llansannan. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Llongyfarchiadau i Elis James** am ennill Cogurdd sef coginio o 19-25 oed yn Eisteddfod yr Urdd, Maldwyn eleni. Mae Elis wedi gorffen ei flwyddyn gyntaf yng Ngholeg Ceredigion, Aberteifi. Mae ei rieni Robert a Delyth, Caffi Beca am ddiolch i Sam Everton, darlithydd yn y coleg am bob hyfforddiant a chefnogaeth a gafodd. Ei wobr, diwrnod yn coginio gyda Bryn Williams yn ei fwyty yng Ngogledd Cymru.




# HENDYGWYN AR DAF

***Priodas Dda***



Mae'n amser y priodasau a chynhaliwyd priodas yn y Tabernacl, Hendy-gwyn yn ystod yr haf. Un o blant Pencaerminau, Llanddewi yw Ruth Thomas ac rydym yn dymuno priodas dda iddi hi a Martin Williams.

Bydd darllenwyr y 'Cardi Bach' yn cofio bod y Tabernacl wedi bod yn dathlu 150 mlynedd yn ddiweddar. Ychydig wythnosau ar ôl y dathliad mawr fe wnaeth plant y 'Clwb Hwyl' gynnal eu parti nhw. Cafwyd prynhawn o gemau a pharti ac fe ganwyd 'Pen-blwydd Hapus' i'r Tabernacl!

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Cafodd y plant hefyd gyfle i gymryd rhan yn chwaraeon MIC yn Neuadd Bronwydd ar ddiwedd Mehefin. Roedd degau ar ddegau o blant yno o bob Ysgol Sul yn Sir Gaerfyrddin ac roedd yn brofiad gwych i'r plant gael cymysgu gyda plant o Ysgolion Sul eraill wrth gymryd rhan mewn pob math o chwaraeon.

Bydd y Clwb Hwyl yn gorffen nawr dros yr haf ac edrychwn ymlaen at weld y plant nol gyda ni ym mis Medi.



Parti dathlu 150 plant y 'Clwb Hwyl'

## Pen blwydd hapus



Mae dwy o'n haelodau wedi bod yn dathlu penblwydd yn 80 a hynny o fewn diwrnodau i'w gilydd.
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rosina Thomas (ar y chwith) a Margaret Titterton oddi wrth pawb yn y capel.

Bydd oedfaon yn yr ofalaeth pob Sul yn ystod mis Awst. Beth am ymuno gyda ni os nag oes oedfaon gyda chi ym mis Awst? Bydd croeso mawr yn eich disgwyl.

Awst:
4ydd : 10.00 : Tabernacl, Hendy-gwyn :
Oedfa Wythnos Hendy-gwyn
11eg : Amser i'w gadarnhau : Bethel, Llanddewi :
Oedfa ddwyieithog dan ofal Mr Edward Howells, Llanddewi.
18fed : 10.30 : Trinity, Llanboidy :
Oedfa dan ofal Mrs Margaret Griffiths, Caerfyrddin
25ain : 10.30 : Tabernacl, Hendy-gwyn :
Oedfa dan ofal Mrs Elonwy Phillips, Hendy-gwyn
Medi'r 1af : 10.30 : Tabernacl, Hendy-gwyn -
Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog.

## *Penblwydd Hapus yn 80 oed*



Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Jean Parri-Roberts a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fehefin yr 11eg.

## Genedigaeth



Llongyfarchiadau i Gethin a Sian, Raven House, Hendygwyn ar enedigaeth efeilliaid unfath, Llewelyn a Macsen ar 28ain o Fai. Wyrion i Ann-Marie a'r diweddar Robert (Benji) a Bernadette o Bontiets.

## Cylch Meithrin Hywel Dda

Enillodd y plant y wobr gyntaf am eu harddangosfa blodyn haul yn Sioe Amaethyddol CFfI Sancler 2024. Da iawn blant!
Aeth plant y Cylch a Ti a Fi ar daith hyfryd i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol ar gyfer Gŵyl Meithrin Mudiad Meithrin 2024. Mwynhawyd Sioe gan Martyn Geraint a chawsant gyfle i gwrdd â Dewin, Masgot Mudiad Meithrin. Diolch i Fysiau Cwm Taf am ein cludo.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

Mae'r plant wedi bod yn brysur yn cynaeafu a bwyta ein tatws lleol o Ganolfan Arddio Tafarnsbeit. Roedden nhw'n flasus iawn!





Tyfu tato

Blodyn haul



Yn yr Ardd Fotaneg gyda Martyn Geraint

## LLANBOIDY

Cydymdeimlwn a Liz Rees, Erw-Lon a'r teulu wedi iddi golli ei chwaer Ann yn ddiweddar.

**Sefydliad y Merched**
Ar Fehefin 13eg, cyfarfu'r aelodau o dan lywyddiaeth Denise Harris. Croesawodd pawb i'r cyfarfod ac hefyd y gŵr gwadd sef Mr Eirwyn Bonnet. Cafwyd hanes diddorol iawn ganddo am ysbytai Sir Gâr a diolchodd Denise iddo. Jayne Evans enillodd y gystadleuaeth am dynnu ffoto o waelod yr ardd. Cynhaliwyd Sioe y Sir yng Nghydweli ar Orffennaf 5ed, felly gwnaed trefniadau i gludo'r cynnigion o Lanboidy i'r sioe. Aeth Mezzie i gynhadledd y mudiad yn Neuadd Royal Albert ac roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Jayne a Gwen.

## RHYDYCEISIAID

**Pulpud**: Braf oedd cael cwmni Eifiona Lewis yn oedfa'r Cymun, Sul, 7fed o Orffennaf.

**Diolch** i'r brodyr Josh a Jac Lewis am dorri gwair y fynwent, mae'n edrych yn raenus iawn.

**Penblwydd hapus** a dymunidau gorau i Marlene Lewis, Hafan Glyd a oedd yn 89 oed ar Orffennaf 11eg.

## CWMBACH

**Cydymdeimlad:** Estynnwn ein cydymdeimlad a Howell Davies Fronuchaf a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer Gwenda a oedd yn byw yn Saundersfoot.

**Llongyfarchiadau** i Elfyn Evans Ffoshelig ar ddathlu ei benblwydd yn 70 oed.

**Gwellhad buan** i Geraint Evans Fronfelin ar ôl llawdriniaeth.

**Llongyfarchiadau** i Gethin James, Efailwen a Magi Davies, Bylchau ger Llansannan ar eu dyweddiad. Mae Gethin yn ŵyr i Jane Evans, Penddol, Blaenwaun.

## CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**
Ym mis Gorffennaf cafwyd gwasanaeth Mr Dafydd Evans, Trelech a'r Parchg Huw George - diolch iddynt.

Undeb Bedyddwyr Cymru a Chymorth Cristnogol – Apêl Talentau Gobaith. Anfonwyd swm o £100 i'r apêl.

Oedfaon Medi:
1af: Cymundeb dan ofal Mr Hedd Ladd-Lewis - 10.30
8fed: Oedfa gan Y Parchg Huw George - 10.30

**Ysbyty**
Dymunwn wellhad llwyr i Beryl Williams, Ledbury (Maesylan gynt) sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei chefn.
….hefyd i'w brawd, Eifion Edwards, Pwlltrap a fu'n anhwylus yn ystod y mis.
….hefyd i Caroline James, Blaendyffryn sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlwn** â John a Heather Phillips, ar farwolaeth cyfnither John, sef Gwenda Rees o Saundersfoot.

**Dymunadau** gorau i Dafydd, Elin a'r merched sydd wedi symud i Llangyndeyrn i fyw.

***Penblwydd Hapus yn 90 oed***



Dyma Rhiana Samson, gynt o Crud-y-Wawr, Tegryn ond sydd bellach yng Nghartref Henllan yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mewn steil.

# LLANDDEWI

**Bethel - Dathlu 200 mlynedd**

Bu dathlu mawr ym Methel, Llanddewi wrth i'r capel ddathlu 200 mlynedd ddiwedd Mehefin.

Cafwyd oedfa lawn ar ddiwrnod y dathlu gan ddechrau gyda'r cyn-weinidogion Parch Tom Defis a Parch Llewelyn Picton Jones yn darllen a gweddïo. Cafwyd cyfarchion wrth Meryl James ar ran y Tabernacl, Hendy-gwyn a Delyth Dent ar ran Trinity, Llanboidy a Ken Thomas ar ran Cyfundeb Penfro. Darllenwyd cyfarchion hefyd wrth y cyn-weinidog Parch Jill-Hailey Harries ac wrth Ysgrifenydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, Parch Dyfrig Rees.

Yn dilyn cyfraniad wrth yr ieuenctid a'r plant cafwyd pregeth hyfryd gan y pregethwr gwadd, y Parch Wyn Thomas, pennaeth yr elusen 'Tir Dewi'. Aeth y casgliad hefyd at waith ardderchog 'Tir Dewi'.

Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu ac roedd gwledd wedi ei baratoi ar gyfer pawb.

Diolch i holl aelodau Bethel am eu holl waith caled dros y misoedd diwethaf wrth baratoi am y diwrnod mawr a diolch i Ryan Evans am y lluniau.

Ar nodyn trist fe wnaethom golli aelod a diacon yn ddiweddar sef Mrs Eileen Lewis. Roedd yn boblogaidd iawn gan bawb ym Methel a byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr.



Y gynulleidfa



Cymdeithasu ar y diwedd



Ieuenctid yn cymryd rhan



Plant yn cymryd rhan



Pregethwr gwadd
Parch. Wyn Thomas (Tir Dewi)

**FFERYLLFA EVANS**
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444 01994 230456
**eich canolfan gofal iechyd lleol**
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

**Celia Vlismas**
OPTEGYDD
**Croeso i gleifion GIG!**



**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn **01239 711888**
Crymych **01239 831555**
Arberth **01834 861373**
**www.celiavlismasopticians.co.uk**

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
**Robert W. R. Morgan**
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# TRELECH

**Llongyfarchiadau** mawr a phob dymuniad da i Anwen, Cilifan ar raddio mewn Addysg Cynradd o Brifysgol Bangor y mis hwn.

....hefyd i Mathew a Claire, Castle Hill ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar - Mabli Grug.

**Penblwydd hapus** arbennig i Penry, Hafod a oedd yn dathlu ar ddechrau'r mis yma.

....hefyd i Rhian, Aelwyd y Coed sydd yn dathlu penblwydd sbesial yng nghanol y mis. Pob dymuniad da i chi'ch dau.

**Gwellhad** llwyr a buan i Glyn, Rhydgors sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac hefyd i David, Pentrecagal sydd wedi cael damwain ar y fferm rhai wythnosau yn ôl.

**Diolch**: Dymuna Neville Williams, Garej Sunny Hill ddiolch i bawb am ei cefnogaeth a'i cydymdeimlad yn ystod ei brofedigaeth o golli Elan yn ddiweddar. Hoffai ddiolch yn arbennig i Jean James Lewis am wasanaeth mor briodol a theimladwy. Diolch i bawb.

**Pob dymuniad da** i Arwyn, Teleri a'r plant Lois, Iwan ac Erin sydd yn symud o'r pentref i fferm Rhydyciw ar gyrion y pentref. Pob lwc yn eich cartref newydd.

**Pob lwc** i blant a phobl ifanc yr ardal fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf yn ystod mis Awst.

**Capel y Graig**

Diolch yn fawr iawn I'r Parchedigion Sian Elin ac Emyr Gwyn Evans am oedfaon bendithiol yn ystod y mis. Diolch hefyd I'r ddwy gyfeilyddes Eirlys Phillips ac Eleri Rees.

Yn ystod mis Mehefin, cafwyd cyfle i fynychu Cynllun Ymestyn Allan a drefnwyd gan Bwyllgor Cenhadol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Roedd hwn yn gyfle gwych i weld yr amrywiol ddeunydd sydd ar gael i helpu eglwysi baratoi a threfnu oedfaon. Diolch yn fawr iawn I'r ddwy fu'n arwain y nosweithiau, Annalyn Davies a Joan Thomas.

Ar nos Fercher, 12fed o Fehefin, mynychodd rhai o'r gwragedd cyfarfod Cymdeithas Chwiorydd Gorllewin Myrddin ym Methlehem Newydd. Llywyddwyd yr oedfa gan Jean Lewis gyda Alyson Harries yn darllen rhan o'r Gair ac Eirlys Phillips yn gweddio. Ar ôl i Jean gyflwyno'r Beibl i'r Llywydd newydd, Marian Thomas, cafwyd cyflwyniad diddorol, amrywiol a graenus gan chwiorydd gofalaeth Bethlehem Newydd a Gibeon ar `Merched i'n hysbrydoli yn ein ffydd'. Ar ôl yr oedfa, mwynhawyd lluniaeth a chyfle i sgwrsio. Diolch i Bethlehem Newydd am eu croeso cynnes.

Ar nos Sul, 16ain o Fehefin, aeth nifer o'r aelodau i Gapel Pen-y-bont ar gyfer oedfa dathlu `Cofio Dechreuad Taith Elfed, Ddoe, Heddiw ac Yfory. 150 o flynyddoedd ers pregeth gyntaf Howell Elvet Lewis yng Nghapel Pen-y-bont'. Roedd yr oedfa wedi cael ei threfnu gan Ymddiriedolaeth Coffa Elfed. Ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr oedfa oedd Gwawr Lewis. Yn dilyn yr oedfa ddiddorol ac ysbrydoledig cafwyd lluniaeth yn y ganolfan. Diolch yn fawr i bawb.

Ar yr 28ain o Fehefin, bu nifer o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan ym Mabolgampau'r Ysgolion Sul yn Neuadd Bronwydd. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gystadlu a llongyfarchiadau mawr i'r rhai enillodd 1af, 2il a 3ydd.

Ar ddydd Sul, 7fed o Orffennaf cafwyd oedfa hyfryd gan yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc, Diolch yn fawr iawn i'r athrawon Eirlys Phillips ac Eleri Rees am hyfforddi'r plant ac i Eirlys Phillips a Iwan Bowen am gyfeilio. Yn dilyn yr oedfa. mwynhawyd cinio blasus yn y ganolfan ac ar ôl cinio, bu'r plant yn ein diddanu gyda dawnsio gwerin. Trefnwyd trip i Heatherton ar gyfer yr 29ain o Orffennaf. Diolch i Eleri Rees a Meinir James am drefnu'r cinio a diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth baratoi'r bwyd.



Plant yr Ysgol Sul



Pobl ifanc

# PENYBONT

## Cyflwyno siec



Yn ddiweddar gwahoddwyd nyrsys o’r Tîm Gofal Parhaus a’r Nyrsys Cymunedol, gan deulu y diweddar Ian (Sam) Jameson i’w gartref, er mwyn dangos gwerthfawrogiad y teulu am y gofal arbennig a dderbyniodd Ian gan y merched gwych yma am dros saith mlynedd. Cyflwynwyd siec o £2,500 er cof am Ian, er mwyn iddynt brynu unrhyw offer sydd angen neu i fynychu cyrsiau, er mwyn eu galluogi i roi’r un gofal i eraill yn eu cartrefi.

Diolch o waelod calon am eu cyfeillgarwch a’u gwaith di-flino ar hyd y blynyddoedd. Diolch hefyd i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu rhoddion hael er cof am Ian ac am eu cefnogaeth ar bob adeg.

## CFfI Penybont

Cafwydd llwyddiant yn noson chwaraeon y sir: Llongyfarchiadau i bawb!

Elan Thomas
1af Shot Put dan 21
1af Disgen dan 21

Cerys N Jones
Ail. Shot Put dan 28
Ail. Disgen dan 28

Carwyn Jones-Morris
Ail. Shot Put dan 28
3ydd. Disgen dan 28

Cymdeithas Waldo Williams
Taith Gerdded
‘Dilyn Llwybrau Waldo’



**Ardal Casmael, Sir Benfro:** Arweinydd Alun Ifans

Cyfarfod wrth yr ysgol Dydd Sadwrn, 27 Gorffennaf am 11. 00 y bore.

Cerdded i'r hen ysgol ble bu Waldo yn Brifathro ar adeg yr Ail Ryfel Byd ac ymlaen i WeunCasmael.

'Nôl i'r ysgol am ginio (**‘Pawb i ddod â’u cinio eu hunain ond bydd te/coffi ar gael’** ) ac yna bydd taith o gwmpas yr Oriel luniau sydd yn yr ysgol.

# LLANGLYDWEN

**Diolch**

Dymuna Jill Lewis, Lluest ddiolch i bawb am y geiriau a'r negeseuon hyfryd ar achlysur ei ymddeoliad fel Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin Sir Benfro a Gorllewin Sir Gâr. Wedi deuddeg mlynedd o weithio i'r Mudiad Meithrin, yn anffodus rhaid oedd rhoi'r gorau i'r swydd ddiwedd Mai. Bu'n ddeuddeg mlynedd hapus yn cefnogi'r Cylchoedd gan gynnwys Trelech, Ffynnonwen, Hywel Dda a Llandysilio.

Cynhaliwyd te prynhawn hyfryd yn y Salutation yng nghwmni staff presennol a chyn staff nifer o'r Cylchoedd.

Diolch o waelod calon i bawb a ddaeth ynghyd ac am y cardiau a'r rhoddion arbennig.
Meddai Jill, "Rwyf wir yn ei werthfawrogi yn fawr iawn. Diolch i bawb, yn staff ac aelodau Pwyllgorau'r Cylchoedd am y cydweithio hapus, y cyfeillgarwch a'r gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd, chi werth y byd". xx

# LLANWINIO

Cynhaliwyd Noson Bingo yn neuadd Llanwinio nos Wener, Mehefin 28ain dan nawdd Pwyllgor Adloniant Llanwinio. Y galwr oedd Eirian James, Blaendyffryn, Cwmfelin Mynach. Bu'n noson lwyddiannus gyda'r neuadd yn llawn. Diolchodd y cadeirydd Geraint Evans i'r noddwyr, i bawb a gyfranodd wobrau raffl ac i'r merched am baratoi a gweini lluniaeth ysgafn.

Roedd elw'r noson yn mynd tuag at gost gosod Diffibliwr ar wal y neuadd.

Y gweithgaredd nesaf fydd Swper Cynhaeaf ym mis Hydref - manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

PHILLIPS A MORRIS
ADEILADWYR
Central, Clunderwen
Symudol:
07775 697803
07920 060956




Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# Dawnswyr Talog

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf gydag Eirian Rees ein is-gadeirydd, a'r teulu ym Mhenrhiwcowin, Blaenycoed, ar farwolaeth ei fam, sef Margaret Rees, Maesybont, Trelech. Cydymdeimlwn hefyd gyda brawd a chwaer Eirian, sef Eurig ac Eleri, a'u teuluoedd yn Nantherwydd, Hermon a Ger-y-Gawnen, Trelech. Mae'r teulu wedi bod yn gysylltiedig â Dawnswyr Talog ers blynyddoedd ac mae atgofion lu o gael cwmni hyfryd Margaret mewn sawl eisteddfod, twmpath a thrip. Coffa da amdani.

**Genedigaeth**

Dymuna'r aelodau estyn ein llongyfarchiadau gwresog i Cerian Phillips, ein cadeirydd, a'i gwr Stuart ar enedigaeth mab bach. Croeso mawr i Cobi Kenneth Phillips, a da iawn Tomi ac Ania am fod yn frawd mawr a chwaer fawr mor dda! Pob dymuniad da i chi deulu annwyl.

**TwmpDaith 2024**

Mae haf prysur o flaen tair o'n haleodau sef Erin Jones, Esther Defis a Luned Defis. Mae'r dair wedi llwyddo cael bod yn rhan o griw TwmpDaith 2024. Byddant yn teithio ar hyd a lled Cymru yn ystod Gorffennaf ac Awst yn diddanu mewn nosweithiau cymdeithasol, gwyliau a chyngherddau. Yn goron ar y cyfan bydd y criw yn cael mynd i un o wyliau gwerin mwyaf Ewrop sef Lorient, yn Ffrainc. Mae'n wych eich bod yn medru lledaenu'r neges am ddawnsio a stepio traddodiadol Cymreig - mwynhewch y profiad ferched!



# Ymchwil Gwefannau Bro

Mae Golwg Cyf. wedi comisiynu Iaith Cyf. i gynnal ymchwil gyda cymunedau Sir Gar, Llyn, Eifionnydd a rhannau o Feirionnydd, i adnabod yr angen a'r potensial i ymestyn rhwydwaith gwefannau Bro360 i'r broydd hynny.

Cefnogir y prosiect hwn gan Gronfa Her ARFOR, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Trwy Bro360, mae cwmni Golwg Cyf. eisoes wedi helpu sefydlu gwefannau bro llwyddiannus Cymraeg mewn 13 ardal trwy Geredigion, Arfon ac Ynys Mon.

Er mwyn sefydlu'r awydd lleol a'r potensial i ehangu'r rhwydwaith i'r ardaloedd a nodir uchod ( Dyffryn Taf yn benodol ), mae Iaith Cyf. yn gwneud y canlynol :-

Rhannu holiadur ar lein - dyma'r ddolen ac mae croeso i bawb sydd a diddordeb, i'w cwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf <https://www.smartsurvey.co.uk/s/GFH-PHD/>; Bro 360 - Holiadur mesur diddordeb (smartsurvey.co.uk)

Cynnal gweithdai cynllunio creadigol rhithiol ym mhob ardal.

Cydweithio gyda'r cydlynwyr lleol.

Eurfyl Lewis yw'r cydlynydd yn ardal Dyffryn Taf ac mae ef eisoes wedi sgwrsio gyda nifer o arweinwyr cymunedol a perchnogion busnes. Os hoffech weld gwefan bro yn cael ei sefydlu yn ardal Dyffryn Taf, a bod modd i chi ein cynorthwyo gyda'r gwaith, cysylltwch gyda Eurfyl ar 07980 883924.

## CARTREF GLYN NEST




## DYDD AGORED



Dydd Mercher, 28 Awst 2024
am 2 o'r gloch
Agorir gan
Miss Buddug Williams. Brynaman
Mynediad £2
*'Dewch yn llu a rhowch yn llon'*

PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO

Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL

01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES
Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor

Heol yr Orsaf
Hendygwyn
Ffôn:
01994 240228

Brian John
ROSE GARAGE

Cwmfelin Mynach
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn / Ffacs: 01994 448426

* Gwaith weldio o safon uchel
** Gwasanaeth ac atgyweirio ar bob math o gerbyd

# Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

CARIAD O BETH CARDI BACH

## YSGOL LLYS HYWEL

**Mabolgampau**

Diwrnod llwyddiannus a llawn hwyl i blant Llys Hywel wrth iddynt gystadlu ym mabolgampau'r Ysgol eleni. Llongyfarchiadau i Tommy-Riley, Aaron, Bella-May, Maddie, Mali a Gruff am ennill y mwyaf o bwyntiau ar y dydd yn y cystadlaethau.

**Criced**



Diolch yn fawr i Alys Jones a Colin John am drefnu cystadleuaeth criced i'r ysgolion clwstwr Dyffryn Taf I blant blwyddyn 5 a 6. Da iawn hefyd i blant blwyddyn 3 a 4 am gymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd.

**Proms**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 am ganu a chwarae'r ffidl a chymryd rhan yn y cyngerdd Proms yn Theatr Ffwrnes, Llanelli mis diwethaf. Profiad arbennig i bawb! "Roeddwn i wedi mwynhau'r profiad o berfformio, er oedd e'n waith caled, roedd e'n llawer o hwyl!" meddai Hana Gabillia, disgybl blwyddyn 6.

**Chwaraeon**

Diolch i Actif, Sir Gar am drefnu gemau gŵyl chwaraeon Olympaidd i blant blwyddyn 3 a 4. Cawson ddiwrnod hwylus.

**Pontio**

Roedd disgyblion blwyddyn 6 wedi mwynhau yn fawr yn eu hysgolion newydd, Dyffryn Taf ac Ysgol Bro Preseli yn barod am fis Medi. Roedd yn bleser gweld bod y disgyblion yn barod ac yn gyffrous i symud lan yn yr Hydref. Pob hwyl i flwyddyn 6 i gyd!

**Bag2School**



Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r casgliad Bag2School. Codwyd £200 i'r ysgol.

**Ymwelwyr**



Croesawyd Lily Rice, paralympaidd o Sir Benfro i siarad â'r plant am ei phrofiadau yng Ngemau'r Gymanwlad. Braf oedd gweld plant blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn gemau a chael cyfle i ofyn cwestiynau. Profiad hyfryd i'r disgyblion. Diolch Lily.

### Ffair Haf PTA

Braf oedd cael y tywydd a'r gefnogaeth ar brynhawn ffair haf, trefnwyd gan rieni a ffrindiau'r Ysgol. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y prynhawn, gan gynnwys busnesau lleol a diolch i bawb a wnaeth fynychu'r prynhawn a chefnogi wrth brynu tocynnau raffl.

**Llangrannog**
Roedd disgyblion blwyddyn 5 wedi mwynhau yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog cyn gwyliau'r Haf. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn sawl gweithgaredd gan gynnwys Ceffylau, Trampolîn, Bag Neidio, nofio a'r wal ddringo.

**Trip Haf**
Am drît diwedd y flwyddyn! Roedd disgyblion yr ysgol gyfan yn ffodus iawn i gael diwrnod hwyl i ddathlu eu gwaith caled am y flwyddyn a mwynhau mewn gwahanol weithgareddau. Buodd blynyddoedd 3 – 6 yn Hangar 5, blwyddyn 1 a 2 wedi treulio'r dydd yn Wetlands, Llanelli a phlant bach y meithrin/derbyn yn aros ar safle'r ysgol i fwynhau diwrnod gyda sawl gweithgaredd hwyl.

# YSGOL BECA

**Gweithdy Claire Jones**



Cawsom fore cyffrous iawn ar ddydd Iau, 13eg o Fehefin gyda chyfleoedd i ymarfer ein sgiliau ar y piano a'r delyn gyda Claire Jones. Roedd yr ysgol yn llawn cerddoriaeth gyda phawb yn ymgeisio i'r eithaf wrth gael profiad yn canu'r ddau offeryn.

**Ymweliad 'Sports Champions'**



Ar ddydd Gwener, 14eg o Fehefin, croesawyd James Tomlinson, taflwr ddisgen, i'r ysgol. Cafodd bawb brynhawn arddechog wrth glywed am hanes Mr Tomlinson, ac hefyd wrth gael cyfle i ymarfer ein sgiliau mewn sesiwn chwaraeon. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth noddi ein plant er mwyn codi arian tuag at yr achos yma.

**Antur Fawr Hufen Iâ Cymreig**
Cawsom wers fyw ryngweithiol oddi gan NFU ar ddydd Mercher, 19eg o Fehefin. Dysgon ni am yr holl gynhwysion sydd eu hangen arnom ni i wneud syndê hufen iâ blasus, a chwrdd â'r bobl sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r cynhwysion hynny megis Angharad o Llaeth Preseli.

**Diwrnod Mabolgampau**



Ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin cawsom ein diwrnod mabolgampau. Cafodd y disgyblion fore hwylus yn cystadlu a braf oedd gweld pob disgybl yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau i Mason, Osian, Gwen, Carys a Letti ar ennill mabolgampwyr y dydd. Diolch hefyd i'r Gymdeithas Rhieni a Ffrindiau am drefnu lluniaeth ysgafn yn ystod y bore.

**Diwrnod Ffederasiwn**
Hoffwn ddiolch i Ysgol Bro Brynach am ein croesawu ar ddydd Mawrth, 2ail o Orffennaf am ein diwrnod ffederasiwn olaf cyn yr haf. Cawsom hwyl a sbri wrth ddatblygu ein sgiliau pêl droed gyda 'Football First' a hyfforddwyr clwb pêl droed Llanboidy mewn ystod o weithgareddau.

**Trip ysgol**
Cafodd disgyblion yr ysgol ddiwrnod i'r brenin ar ddydd Mawrth, 16eg o Orffennaf ar drip i Manor Wildlife Park. Cafwyd llawer o hwyl yn ymweld â llawer o anifeiliaid a hefyd wrth chwarae mewn amryw ardaloedd. Roedd pawb wedi blino'n lân.

**Ffarwelio â Miss Phillips**
Eleni, rydym yn ffarwelio â Miss Phillips. Mae wedi gweithio'n ddiwyd fel athrawes yn yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi cyfrannu cymaint at fywyd yr ysgol. Hoffwn ddiolch iddi am ei gwaith caled a dymunwn bob hwyl am y dyfodol yn ei swydd newydd.

**Ymddeoliad hapus i Mrs Twose**
Mae'r amser wedi dod i ffarwelio â Mrs Twose, sydd wedi bod gyda ni yn Ysgol Beca am dros 16 mlynedd. Mae Mrs Twose pob tro yn ymroi yn llwyr ac yn barod i helpu mewn unrhyw ffordd posib. Hoffwn ddiolch yn enwedig iddi am ei hymroddiad creadigol i'r ysgol wrth greu ein gwisg Dawnsio Gwerin anhygoel a datblygu sgiliau gwinio disgyblion Cwm Cerwyn. Bydd y plant yn gweld eich eisiau yn fawr iawn. Hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus iddi a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol!

**Ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6**
Hoffem fel ysgol ddymuno pob lwc i ddisgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt orffen eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Bydd Carys, Gwen, Osian, Ethan, Tomos, Reilly a Charlie yn dechrau pennod newydd ym mis Medi wrth iddynt fentro i Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Dyffryn Taf. Pob lwc i chi blant a chymerwch bob cyfle.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Siarter Iaith**
Llongyfarchiadau mawr i'r Llysgenhadon Iaith a gefnogodd yr Ysgol wrth i ni sicrhau'r Wobr Aur ar gyfer y Siarter iaith a Chymraeg Campus. Croesawyd Mrs Lowri Jones a Mr Rhys Locke o'r Siarter Iaith atom i wirio yr holl waith a wnaethpwyd gan yr ysgol ar hyd y flwyddyn yn hybu Cymreictod a mwynhad o'r iaith Gymraeg. Diolch i Caio, Cian, Nia, Enlli a Ffion am arwain y gwaith mor frwdfrydig.

**Chwaraeon**
Cafwyd llawer o hwyl wrth i ni gynnal Mabolgampau ar gyfer y tri Cam Cynnydd. Diolch i'r holl rieni a ddaeth i gefnogi eu plant. Llys Dylan ddaeth i'r brig eleni!
Bu tim y bechgyn hŷn yn cystadlu yn nhwrnament Criced Cwm Taf gan ddod yn gyntaf. Aethant ymlaen i rownd y Sir gan ennill dwy gêm allan o dair. Da iawn fechgyn!
Bu'r merched hŷn hefyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Criced Cwm Tâf.
Bu disgyblion o Flwyddyn 4 Branwen ac Olwen yn mwynhau cymryd rhan yng Ngŵyl Criced yr Urdd.
Cwblhaodd y Llysgenhadon Chwaraeon eu blwyddyn brysur o weithgareddau drwy fynychu diwrnod o hwyl ar gyfer llysgenhadon y Sir ym Mharc Pembre. Diolch i Ava, Iwan, Mason a Freya am eu gwaith drwy'r flwyddyn yn cefnogi sgiliau chwaraeon yr ysgol.

**Ymwelwyr**
Croesawyd Kristen sef nyrs yr ysgol atom i siarad â disgyblion Blwyddyn 6 am dyfu i fyny.
Croesawyd rhieni a phlant newydd y dosbarth Meithrin atom ar gyfer prynhawn agored.
Cafodd y plant lleiaf fore hwylus dros ben wrth i Theatr Bypedau Cymru ymweld â'r ysgol i ddifyrru dosbarthiadau Beca, Dewi a Non gyda'u perfformiad o 'Yr Esgid Enfawr!'.

**Ymweliadau**
Bu nifer o'r dosbarthiadau yn mwynhau tripiau amrywiol yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Aeth Dosbarthiadau Olwen a Rhiannon i fwynhau gweithgareddau coedwig a glan môr ym Mharc Pembre.
Aeth Dosbarthiadau Beca a Dewi ar daith i Barc Manor.
Aeth dosbarthiadau Pwyll, Myrddin a Branwen i grwydro bryniau'r Preseli fel rhan o'u thema 'Môr a Mynydd'. Cafodd Dosbarth Branwen hefyd gyfle i chwilota am greaduriaid y môr ar draeth Trefdraeth. Roedd y tri diwrnod yma yn rhan o weithgareddau a drefnwyd gan Ganolfan yr Urdd ym Mhentre Ifan. Diolch o galon i Aled ac Owain o'r Ganolfan am arwain y plant ar y eu teithiau.




Taith Dosbarth Branwen

Bu'r Cyngor Ysgol yn ymweld â siambr y Maer lawr yn y Gât i ddysgu am waith Cyngor y Dref yn y gymuned. Bu'r Llysgenhadon Iaith hefyd lawr yn y Gât yn cefnogi Clwb Clecs Sanclêr. Bu'r criw yn sgwrsio gyda'r dysgwyr ac yn manteisio ar y cyfle i ddysgu geirfa newydd iddynt. Diolch o galon i'r Maer Annalyn am ei chefnogaeth wrth drefnu'r ddau ddigwyddiad pwysig yma.

**Proms Sir Gâr**
Bu'r disgyblion hŷn o ddosbarthiadau Pwyll a Myrddin yn perfformio yng nghyngerdd Proms Sir Gâr yn Theatr y Ffwrnes yn Llanelli. Bu rhai o offerynnwyr yr Ysgol hefyd yn perfformio yn y cyngherddau chwythbrennau, llinynnau a gitar.

**Pontio**
Trefnwyd diwrnodau pontio ar gyfer disgyblion

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

Blwyddyn 5 + 6 yn Nyffryn Tâf a Bro Myrddin. Mwynhaodd y plant y cyfle i gyfarfod ag athrawon a ffrindiau newydd.

**Gŵyl Canol Dre**




Bu disgyblion Blwyddyn 2 yn perfformio yn ‘Gŵyl Canol Dre’ yng Nghaerfyrddin. Diolch i Menter Iaith Sir Gâr am drefnu’r Ŵyl ac am roi cyfle i’r disgyblion gael bod yn rhan ohoni.

**Sioe San Clêr**



Cyflwynwyd cystadlaethau newydd cyffrous i’r plant yn Sioe San Clêr eleni. Bu Dosbarth Hywel yn brysur yn creu dau fwgan brain ar gyfer y gystadleuaeth, sef Sian Clêr a Barti ddu. Braf yw cyhoeddi fod Barti Ddu wedi ennill y wobr gyntaf. Da iawn i blant Dosbarth Non hefyd a fu’n cystadlu yn y gystadleuaeth creu blodyn haul.

**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**

Trefnwyd taith gerdded noddedig gan y Gymdeithas Rieni a Ffrindiau ar y thema ‘Y Gemau Olympaidd’. Mwynhaodd y plant wisgo i fyny fel athletwyr y byd.

**Ffarwelio**

Pob hwyl i’r 41 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni eleni. Diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad i Ysgol Griffith Jones dros y blynyddoedd.

# YSGOL HAFODWENOG

**Cwrs Beicio**



Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol yn ddiweddar.

**Proms Iau Sir Gâr**

Llongyfarchiadau i Anest, Eres, Lilly, Sara a Sophie am chwarae’r ffidil yng nghyngerdd Proms Iau Sir Gâr yn y Ffwrnes yn Llanelli.

**NFU Cymru**

Bu disgyblion Cae Glas yn cael gwers fyw ryngweithiol gyda NFU Cymru a Llaeth Preseli. Roedd y wers am Antur Fawr Hufen Iâ Cymru, yn dangos sut i gasglu’r cynhwysion a ble mae’r cynhwysion yn cael eu cynhyrchu.

**Clocsio**

Galwodd Tudur a’i helpwr, Largo, yn yr ysgol i ddangos ambell dric clocsio i’r disgyblion. Prynhawn llawn hwyl.

**Menter y Dreftadaeth Gymreig**



Bu’r ysgol yn ffodus i ennill gwobr o ddiwrnod gydag awdur Cymraeg gan Menter y Dreftadaeth Gymreig. Felly, daeth Anni Llŷn i wneud sesiwn gyda’r ddau ddosbarth. Diolch yn fawr.

G. & J.M. Phillips
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE
Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412
NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o’r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

**Llysgenhadon Chwaraeon**
Fe aeth Llysgenhadon Chwaraeon yr ysgol, Cadi, Heledd, Sophie a Zara, am ddiwrnod dathlu ym Mhenbre. Diolch i Actif Sir Gâr.

**Mabolgampau**
Cawsom ddiwrnod sych i gynnal mabolgampau'r ysgol. Llongyfachiadau i Tywi a ddaeth i'r brig eleni.

Pwyntiau Uchaf :
Rhos Fach merched – Erin Deane; Rhos Fach bechgyn – Ifan Davies
Cae Glas merched – Rosie Whittal-Williams; Cae Glas bechgyn – Cillian Brooks

Tarian maes neidio & Tarian ras hir – Zara Evans Tarian maes taflu – Mila Evans
Pencampwr yr ysgol – Cillian Brooks. Llongyfarciadau i bawb am gymryd rhan

**Adweitheg**
Diolch i Mrs Meleri Brown am ddod i wneud sesiwn adweitheg gyda'r ddau dosbarth.

**Beicio**



Diolch i Hannah o Actif am ddod i wneud sesiwn beicio gyda disgyblion Rhos Fach. Pawb wedi mwynhau'r prynhawn.

Gŵyl Canol Dre



Bu'r disgyblion yn cymryd rhan yn yr Ŵyl Canol Dre ym mharc Myrddin. Da iawn chi.

---

# YSGOL BRYNCONIN

**Beicio – Bl.5 a 6**
Da iawn i bawb o Ddosbarth Rhuddem a gymerodd rhan yng ngweithdy beicio ym ms Mehefin. Mae hi'n her yma ym Mrynconin gyda'r heol brysur a'r traffig cyflym, ond gyda sgiliau canolbwyntio a gwrando y plant fe wnaeth pawb yn arbennig o dda.

**Taith Dosbarth Diemwnt i Faenordy Sgolton**



Braf oedd cael dysgu am hanes hen degannau ar ddydd Mawrth, 18fed o Fehefin wrth i Ddosbarth Diemwnt dreulio y diwrnod ym Maenordy Sgolton. Cafwyd cyfle i ddysgu am deganau Oes Fictoria gan gymharu y teganau hynny gyda theganau heddiw.

**Gala Nofio Ysgol Brynconin**
Da iawn i bawb a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Gala Nofio Ysgol Brynconin ar fore Mawrth, 25ain o Fehefin ym Mhwll Nofio Arberth. Diolch i'r aelodau staff am drefnu'r gweithgaredd arbennig hwn, yn arbennig i Mrs S Richards am roi ei hamser i helpu ni i gynnal y gystadleuaeth. Da iawn i bawb am gystadlu a llongyfarchiadau enfawr i Dŷ Bronfraith am ennill Tlws Mrs Enfys Howells am y tŷ a enillodd y fwyaf o bwyntiau.

**Dosbarth Rhuddem**
Cafodd ddisgyblion Dosbarth Rhuddem hwyl wrth iddynt fynychu gweithdy ar lein ar ddydd Mercher, 26ain o Fehefin gan ddysgu mwy am ystyr enwau llefydd yr ardal. Cafwyd cyfle i greu GIF ar gyfer y llefydd yma a bydd modd i bawb weld GIFS mae disgyblion Ysgol Brynconin wedi eu creu ar Instegram a Twitter.

**Mabolgampau'r Ysgol**
Braf oedd cael cynnal mabolgampau'r Ysgol ar ddydd Iau, 27ain o Fehefin a bendigedig oedd cael cwmni rhieni a ffrindiau yr ysgol. Da iawn i bob plentyn am gystadlu mor dda a llongyfarchiadau i Amelia a Llŷr am ennill y tlysau ac i dîm Robin am ennill y fwyaf o bwyntiau ar y diwrnod.

**Ffair Haf**
Diolch o waelod calon i Swyddogion Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Brynocnin am drefnu'r Ffair Haf eleni eto ac i bawb oedd wedi cynorthwyo, cyfrannu a chefnogi mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y Ffair. Braf oedd gweld nifer o rieni a ffrindiau yr ysgol yn cymdeithasu a mwynhau a diolch i chi gyd unwaith eto am eich cyfraniadau gwerthfawr. Codwyd swm arbennig o

£800 tuag at gronfa'r ysgol a byddwn yn defnyddio'r arian a godwyd i ddatblygu'r ardal allanol ymhellach eto.

**Twrnament Pêl Droed Bro Preseli**

Da iawn i Dîm Pêl Droed yr Ysgol am gystadlu mor dda yn nhwrnament pêl droed Bro Preseli ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Enillwyd nifer o gemau a da iawn i bawb am chwarae'n dda.

**Taith Haf i Draeth Mawr, Trefdraeth**



Braf oedd cael treulio y diwrnod ar Draeth Mawr, Trefdraeth ar ddydd Llun, 1af o Orffennaf a diolch byth am dywydd sych! Cafwyd cyfle i fwynhau ar y tywod, gwlychu traed yn y môr a blasu hufen iâ blasus o'r caffi cyfagos.

**Criced**

Da iawn i dîm criced yr Ysgol am gystadlu mor dda yn rownd derfynol Sir Benfro ar ddydd Mawrth, 2il o Orffennaf. Camp a hanner yw cyrraedd rownd derfynol y Sir felly llongyfarchiadau i bawb.

**Diwrnod Pontio Ysgol Brynconin**

Braf oedd cynnal ein diwrnod pontio yn Ysgol Brynconin ar ddydd Gwener, 5ed o Orffennaf lle treuliodd y plant ddiwrnod yn eu dosbarthiadau yn barod ar gyfer mis Medi.

**Mabolgampau Ffederasiwn**

Cynhaliwyd bore o fabolgampau i'r Ffederasiwn ar fore Llun, 8fed o Orffennaf ar gae Ysgol Brynconin. Cafwyd cyfle i gymdeithasu a chael hwyl gyda'n gilydd.

**Gweithdy Celf Blwyddyn 6**



Braf oedd cael croesawu Mr Rhys Padarn Jones (Orielodl) nôl i'r Ysgol er mwyn cynnal gweithdy celf gyda phlant Blwyddyn 6 ar ddydd Mawrth, 9fed o Orffennaf. Creuwyd murlun enfawr a lliwgar yn dathlu bywyd Shir Benfro a bydd y murlun yma yn atgof o griw Blwyddyn 6, 2024.

**Noson Agored**

Braf oedd cael croesawu y gymuned gyfan i Noson Agored Ysgol Brynconin ar nos Fercher, 10fed o Orffennaf. Cafwyd cyfle i ddathlu gwaith a llwyddiannau'r Ysgol am y flwyddyn.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Llwyddiant Eisteddfod**



Llongyfarchiadau gwresog i Maria ar dderbyn 1af am ei gwaith 2D ac 2il am ei gwaith celf 3D yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn. Roedd dy waith yn wych, da iawn ti!

**Twrnamaint Criced Cymru Hendy-gwyn**

Ar y 10fed o Fehefin cafodd disgyblion Dosbarth Cynin y cyfle i gystadlu yn Nhwrnamaint Criced Cymru a drefnwyd gan Glwb Criced Hendy-gwyn.

Yn y bore cystadlodd tîm o fechgyn a merched yn y gystadleuaeth cymysg. Llwyddodd y bechgyn i ennill dwy o'i gemau a'r merched yn ennill a cholli un gêm.

Yn y prynhawn cystadlodd tîm y merched yn y gystadleuaeth merched. Llwyddodd y merched i ennill dwy o'i gemau ac ennill y gystadleuaeth. Yn dilyn hyn, bydd y tîm yn mynd i gystadlu yn y rownd nesaf yn erbyn ysgolion eraill o fewn y Sir ar ddydd Llun, 15fed o Orffennaf. Llongyfarchiadau a phob lwc i chi ferched, ewch amdani!



Tîm criced y merched

**Twrnamaint Criced 50/50 yr Urdd ym Mronwydd**

Ar ddydd Llun, 17eg o Fehefin aeth dau dîm o flynyddoedd 3 a 4 i gystadlu yn nhwrnamaint criced 50/50 yr Urdd yng nghlwb Criced Bronwydd. Chwaraeodd y ddau dîm yn arbennig o dda a chafodd pawb hwyl yn cystadlu.

**Sesiwn Stori a Symud**




Mwynhaodd disgyblion y Dysgu Sylfaen sesiwn stori a symud gan Lowri Siôn a'i chymeriadau Del, Daff a Dil. Aethant ar daith hudol i waelod yr ardd a dysgu sut i dyfu llysiau a mynd ati i greu cawl potsh hudol.

**Cwmni 'Football First'**

Diolch i gwmni 'Football First' am gynnal gwasanaeth yn sôn am ein her pêl-droed. Bu Nikki yn arddangos ei sgiliau a gwahoddwyd rhai o ddisgyblion a staff yr ysgol i roi cynnig arni hefyd! Ar ôl y gwasanaeth cafodd pob dosbarth sesiwn gyda Nikki i ymarfer eu sgiliau pêl wrth wrando ar amryw o ganeuon pop. Am hwyl a sbri!

**Mabolgampau**

Hyfryd oedd gallu cynnal ein mabolgampau ar y 1af o Orffennaf. Cafwyd diwrnod hwyliog gyda chystadlu brwd. Llongyfarchiadau i Llew, Ruby, Jac a Gwenllian am ddod yn gyntaf yn y ras hir. Hefyd i'r canlynol am ennill Victor a Victrix Ludorum yn y Mabolgampau;
Dysgu Sylfaen: Rowan Houlden, Abbie Jenkins, Ruby Rodenhurst a Alys Tebbut
Cyfnod Allweddol 2: Edward Rodenhurst a Gwenllian Dent. Llongyfarchiadau i Llys Gronw a oedd yn fuddugol.



Dyma ddisgyblion Blwyddyn 6 Llys Gronw gyda'u tarian

Yn dilyn y mabolgampau cynhaliodd Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r ysgol weithgareddau hwylus gan gynnwys castell neidio, raffl, barbeciw a ras hwyaid. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu a helpu ar y diwrnod mewn unrhyw ffordd.

**Diwrnod Iechyd a Lles Ffederasiwn Bro Brynach a Beca**

Ar ddydd Mawrth 2il o Orffennaf braf oedd cael cynnal diwrnod Iechyd a Lles y Ffederasiwn ar gae Dandre, Llanboidy. Yn ystod y diwrnod cafodd y plant gyfle i ymgymryd mewn amryw o gemau, criced, rownderi, sialens sgorio gan y cwmni 'Football First' yn ogystal â datblygu ystod o sgiliau pêl-droed gan glwb Pêl-droed Llanboidy. Estynnwn ein diolch i Dafydd, Darren a Gareth am ei hamser ac am redeg sesiynau sgiliau pêl-droed hwyliog yn ystod y diwrnod.



Diwrnod Iechyd a Lles

**Hyfforddiant Beicio**

Cwblhaodd disgyblion Blwyddyn 5 eu hyfforddiant Lefel 1 a chwblhaodd disgyblion Blwyddyn 6 eu hyfforddiant Lefel 2 cwrs beicio'n ddiogel yn ystod y mis. Dysgon nhw sut i wirio bod ei beic yn ddiogel i ddefnyddio a sut i ymateb yn briodol i beryglon a chadw'n ddiogel allan ar yr heol.

**Ymweliadau a Diwrnodau Pontio**

Yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf trefnwyd amryw o ddiwrnodau pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn Nyffryn Tâf ac Ysgol Bro Preseli. Mwynhaodd y plant ymgymryd mewn amryw o weithgareddau hwylus a chael y cyfle i gyfarfod ag athrawon a ffrindiau newydd. Tra oedd disgyblion blwyddyn 6 yn mynychu eu hysgolion cyfun cawsom y cyfle i gynnal diwrnod pontio mewnol. Fe gafodd disgyblion derbyn, blwyddyn 2 a 4 y cyfle i symud i'w dosbarth newydd a braf oedd cael y cyfle i groesawu plant newydd i ddosbarth Lliwe yn y prynhawn. Yn ystod y dydd gwnaeth y plant ddod i adna bod eu hamgylchedd dosbarth newydd a chwrdd ar staff yn ogystal ag ymgymryd mewn ystod o weithgareddau hwylus.
Ar ddydd Llun yr wythfed o Orffennaf cafodd dosbarth Cynin y cyfle i ymweld ag ysgol Ddyffryn Taf. Cafwyd y cyfle i greu cerdd benrhydd am ddiwrnod ar y traeth gyda Mrs Chucas ac ymgymryd mewn gweithgareddau ynghyd ar lyfrgell gyda Mr Yule. Diolch hefyd i'r mentoriaid am eu cymorth yn ystod y bore.

**Ymwelwyr**

Yn ystod y mis croesawyd Kristen sef nyrs yr ysgol atom i siarad â disgyblion Blwyddyn 6 a merched Blwyddyn 5 am dyfu i fyny.
Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Guto Llywelyn a Shirley Murphy atom eto mis yma. Gwnaethant ein atgoffa ni o'n cryfderau a'n gwendidau ag i ddefnyddio nhw yn y modd cywir.

**Ffarwelio**

Pob hwyl i 12 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni eleni, a diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad dros y blynyddoedd. Dymunwn bob hwyl iddynt yn eu hysgolion Uwchradd ym mis Medi.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun29ain Gorffennaf | Ardal SHAKESPEARE - Stratford upon Avon a Kenilworth | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 4ydd Awst | Teithiau cychod a Rheilffyrdd Ager yn ARDAL Y LLYNNOEDD | £620 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 12fed Awst | Dewch I ddarganfod golygfeydd godidog AWSTRIA | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Llun 12fed Awst | HAMPSHIRE ISLAND a thaith ar Hovercraft i Ynys Wyth | £495 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 20fed Awst | Gwyliau Byr yn COLEFORD, Cas Gwent a "Forest of Dean" | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 21ain Awst | TAITH HAF I BOURNEMOUTH | £425 | 4 Diwrnod |
| Sul 25ain Awst | DEVONSHIRE a ILFRACOMBE | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Medi | Teithiau ar Gwch a Tren yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 2ail Medi | GOLEUADAU BLACKPOOL | £395 | 5 Diwrnod |
| Sul 8fed Medi | Teithiau cwch ar "Lochs" yr ALBAN ac ambell ddistyllfa chwisgi | £630 | 6 Diwrnod |
| Sadwrn 14eg Medi | LLANDUDNO a CHAMLAS LLANGOLLEN | £565 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 17eg Medi | KILLARNEY a RING OF KERRY, IWERDDON. | £725 | 6 Diwrnod |
| Gwener 20fed Medi | WEYMOUTH ac ARFORDIR DORSET | £375 | 4Diwrnod |
| Llun 23ain Medi | PENNINE EXPLORER | £475 | 5 Diwrnod |
| Llun 30ain Medi | GOLEUADAU BLACKPOOL | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwener 4ydd Hydref | GWYLIAU BYR yn STRATFORD UPON AVON | £299 | 3 Diwrnod |
| Mercher 9fed Hydref | YNYS MANAW - Douglas - ISLE OF MAN | £635 | 6 Diwrnod |
| Gwener 11fed Hydref | PENWYTHNOS YN DINAS CARFADDON - BATH | £410 | 4 Diwrnod |
| Llun 14eg Hydref | TAITH DDIRGEL MIS HYDREF i ??????????????? | £385 | 5 Diwrnod |
| Gwener 18fed Hydref | WESTON SUPER MARE - Gwesty'r NEW OCEAN | £355 | 4 Diwrnod |
| Llun 21ain Hydref | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £445 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Hydref | Clive a'i Ffrindie yn dihuno ac yn diddanu CARLOW, IWERDDON | £395 | 4 Diwrnod |
| Gwener 1af Tachwedd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £305 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Tachwedd | WEYMOUTH - NADOLIG CYNNAR yng Ngwesty'r CROWN | £420 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Tachwedd | SIOE HEN DRACTORAU a THREFTADAETH AMAETHYDDOL | £315 | 3 Diwrnod |
| Llun 11fed Tachwedd | NADOLIG FICTORIANAIDD ar YNYS WYTH - ISLE OF WIGHT | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 11fed Tachwedd | Clychau ac Addurniade NADOLIG cynnar yn BOURNEMOUTH | £420 | 5 Diwrnod |
| Gwe 15fed Tachwedd | PENWYTHNOS NADOLIGAIDD yn SIDMOUTH | £375 | 4 Diwrnod |
| Iau 21ain Tachwedd | NADOLIG llawn CELYN ac UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwe 22ain Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Gwe 29ain Tachwedd | NADOLIG o UCHELWYDD a GWIN yn BABBACOMBE | £310 | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**
**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**
**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## *Teithiau Undydd 2024*

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 30ainGorff | Teithio Sir Benfro a tê prynhawn yn Cenarth | £40.00 | Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive | | Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 |
| | | (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 | Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mawrth | 6edAwst | Tŷ ddewi a Fferm Chwilod Dr Beynon | i'w gadarn | Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 |
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 | Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarn | Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref | | Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| | | (ddim yn y pris) | £24.00 | Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 | Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 | Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 | Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |

**Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Pen-blwydd Hapus i Gwilym Huw yn 5 oed ar 30ain o Orffennaf. Cariad mawr, Mami, Dadi, Gruffudd Llewelyn, Mamgu Waunfach a'r teulu i gyd.



Penblwydd Hapus i'n merch hardd, Jessica, a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 10 oed ar 10fed o Awst. Llawer o gariad oddi wrth Mam, Dad, Chloe a'r teulu oll xx



Penblwydd Hapus i Beca Leeke a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 9 oed ar Orffennaf 9fed. Daw'r cyfarchion oddi wrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd Hapus iawn i ti Tomos yn 4 oed ar y 17eg o Orffennaf. Joia'r dathlu. Cariad mawr wrth Mam, Dad, Celt a'r teulu i gyd. xx

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

Wynne Phillips
CANOLFAN TRYCIAU
Gwasanaeth o safon
Heol yr Orsaf
Hendygwyn
Ffôn: 01994 240820

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab
Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

LYNDON GEORGE



**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP





WYTHNOS HENDYGWYN 2024

# Capel y Tabernacl Hendygwyn

**Noson Gymreig** yng nghwmni aelodau o'r grŵp Perlau Taf a fydd yn hel atgofion.




**Nos Lun, Gorffennaf 29ain**

am 7.30

Pris mynediad £5

Croeso cynnes i bawb.



Jones Login

Teithiau o Safon

Quality Coach Travel

**Login Hendygwyn Sir Gaerfyrddin SA34 0UX Ffôn: 01437 563277 www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 6 | Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks a thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu (3 sedd ar ôl!) | 1 |
| Iau 25 | **Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham** | 2 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Mer 28 | **Gerddi Highgrove a'r Cotswolds** (2 sedd ar ôl) | 2 |
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Small'** | 5* |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** (Un sedd ar ôl!) | 2 |
| Llun 7 | **Gwesty Warner - Sinah Warren** | 5* |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoedd a Lerpwl** | 5* |
| Iau 31 | *Jane McDonald, Arena Utilita, Caerdydd* | 1 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 2 |
| Gwe 22 | **Marchnad Nadolig Manceinion** | 3 |
| Sad 30 | **Gwyl Olau Longeat a Briste** | 2 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheifffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty Warner Holme Lacy** | 5* |
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston, Swydd Caer** | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 8 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Sad 22 | *Sioe Gerdd Kinky Boots, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* | 1 |
| Gwe 25 | **Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon** | 2 |
| Sul 27 | *Giovanni Pernice 'The Last Dance', CMC* | 1 |
| **Mai 2025** | | |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5 |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd Only Fools & Horses, CMC* | 1 |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | **Ardal y Peak District** | 5 |
| Llun 16 | **Gerddi Cernyw ac Arfordir Swydd Dyfnanint** | 5 |
| Sad 21 | *& Juliet, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

# CYFRES Wenfro — Bwced Bwgi-bo

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae'n ddiwrnod braf o haf ac mae bwced Bwgi-bo yn llawn o greaduriaid a thrysorau traeth Aberawen.






**Faint o'r canlynol welwch chi yn y bwced?**

- crancod
- cocos
- cregyn gleision
- môr-falwod
- octopysau
- pysgod
- sêr môr

**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/08/24**

**Leia Jenkins, Ael y Bryn, Meidrim yw enillydd Cystadleuaeth Baneri Bendigedig**

Ateb: 20 triongl coch, 12 triongl gwyrdd ac 16 triongl gwyn welodd Branwen ar y baneri bendigedig.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

# Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy

## Cystadlaethau Tynnu Rhaff Cymru 2024



Carfan Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy 2024

Eleni eto, fe deithiodd bois Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy i Lanidloes ar gyfer cystadlu yn Mhencampwriaethau Tynnu Rhaff Cymru. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ddechrau Gorffennaf ar Gae Hafren, Llanidloes fel rhan o Ŵyl Rygbi Saith bob Ochor Heart of Wales. Mae'r clwb ar hyn o bryd mewn cyfnod o ail-adeiladu a braf oedd cael cwmni nifer o aelodau ifanc, newydd yn y garfan sy'n galonogol ar gyfer dyfodol y clwb.

Cafodd y bechgyn ddiwrnod llewyrchus eleni eto gan ennill tair wobr gynta ac un drydedd wobr. Roedd yr hyfforddwr, Kevin Phillips, ar ben ei ddigon ac yn hynod o falch o lwyddiannau'r bechgyn. Os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r clwb ar gyfer cystadlaethau'r flwyddyn nesaf, mae croeso i chi gysylltu â Kevin drwy alwad ffôn ar 07812 408633.

# Clwb Rygbi Hendygwyn

Mae tymor arall wedi dod i ben. Yn anffodus mae tîm y dynion wedi disgyn i Gynghrair 2 y Gorllewin ond yn edrych ymlaen i chwarae nifer fawr o'r timoedd sy'n agos i adref. Mae gennym ni gapten newydd sef Zac France-Millar a ??? yn is gapten.

Hyfforddwyr y tymor newydd yw Lee Rees, ?? • Rheolwr y tîm - Martin Nicholas • Is rheolwraig - Calan

Mae'r menywod dal yn Uwch Gynghrair y Menywod ac yn gobeitho cael cyfle i chwarae fwy o gemau yn ystod y tymor sydd i ddod.

Capten - Sally Windsor
Is Gapten - Marged Williams
Hyfforddwyr - Dafydd Cox a Ceiron Evans
Rheolwraig - Suzanne Davies

**Dynion**
Awst 31ain - Brynaman i ffwrdd (gêm gyfeillgar)
Medi 7fed - Adref erbyn Penfro yng Nghwpan Sir Benfro
Medi 14eg - Gêm cyntaf adref yn y gyngrair yn erbyn Talacharn (local derby bach cynhyrfus)

**Menywod**
Awst 10fed - adref erbyn Llanelli Warriors - tim anabl
24ain - i ffwrdd erbyn Llantwit Fardre
Medi 15fed – adref erbyn Blaendulais / Seven Sisters

Byddwn yn rhedeg timoedd dan7/8/9/10 cymysg a tim dan 12 - bechgyn yn unig.

Bydd y merched dan 12/14 yn dechrau ymarfer ym mis Medi a 16/18 ym mis Awst.

Os hoffech unrhyw wybodaeth am dim y dynion, cysylltwch a Martin 07775 753936, am dim y menywod/merched, cysylltwch a Suzanne 07966 694323. *Suzanne Davies*

# Clwb Criced Hendygwyn

Oherwydd y tywydd gwlyb ofnadwy bu rhaid gohirio dechrau'r tymor am bythefnos er mwyn i'r caeau gael amser i sychu. Ar ôl ennill dyrchafiad y tymor diwethaf mae'r tîm cyntaf nawr yn ôl yn Adran Gyntaf Cynghrair Sir Benfro. Ar ôl dechrau anodd mae'r tîm wedi ennill ei tair gêm diwethaf ac yn y 5ed safle yn yr adran. Jonathan Thomas yw'r prif sgoriwr gyda 302 o rhediadau. Mae Conor Bowen a Cian Rees yn gydradd am gymeryd wicedi, gyda'r ddau wedi cipio 14 wiced. Mae'r ail dîm yn 4ydd yn y 5ed adran gan ennill 4 allan o 8 gêm. Yn y 6ed adran mae'r trydydd tîm, sydd yn llawn o chwaraewyr ifanc, wedi ennill 2 allan o 8 gêm ac yn 5ed yn yr adran.

Siomedig bu perfformiadau y tîm cyntaf yn y cwpanau. Colli adre i Burton oedd yr hanes yng Nghwpan Harrison-Allen. Yng Nghwpan y D.R.Morris llwyddwyd i guro Burton i ffwrdd ond yna colli adre i San Ishmaels. Nid yw'r ail dîm wedi chwarae gêm gwpan eto ond yng nghystadleuath Ken Morris mae'r trydydd tîm wedi ennill ei dwy gem gyntaf yn y grŵp.

Mae'r clwb yn dal i feithrin y talent ifanc a braf iawn i weld dros 50 o blant dan 7 yn ymarfer bob nos Lun. Mae'r timau dan 9,11,13 a 15 yn chwarae yn gyson yn eu gwahanol adrannau yn Sir Benfro. Mae'r tîm dan 17 wedi llwyddo i symud allan o'i grŵp i chwarae yn rownd gyn derfynol Cwpan Ormond i Ieuenctid.

Mae tîm y merched yn chwarae yn gyson ar Nos Fawrth yn Ail Adran Sir Benfro. Mae nhw wedi cael dechrau da i'r tymor gan ennill 5 allan o 6 gêm a bod yn yr 2il safle yn y gynghrair. *Trefor Evans*




# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr



Mae'r clwb yn ôl yn paratoi ar gyfer y tymor newydd gan ddechrau ymarfer ar yr 2il o Orffennaf. Mae'r bechgyn yn ymarfer ar Barc Griffith Jones bob nos Fawrth a nos Iau am 7 o'r gloch. Rydym wrth ein bodd y bod y tîm hyfforddi sef Rhodri Jones, Mike Jones a Dafydd Evans yn parhau i gefnogi'r garfan wrth i ni ddechrau ar ein her newydd yn Adran 1 y Gorllewin eleni. Bydd ein gêm gynghrair gyntaf adref yn erbyn Dinbych y Pysgod ar Medi 7fed, a enillodd ddyrchafiad gyda ni dymor diwethaf. Rydym yn croesawu chwaraewyr presennol a newydd i'r clwb ar adeg sy'n gyffrous iawn i'r clwb.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld ein hieuenctid yn dychwelyd i gystadlu yng nghynghrair Gorllewin Sir Gaerfyrddin yn erbyn Porth Tywyn, Athletig Caerfyrddin, Quins Caerfyrddin, Ffwrnais, Cydweli, Llanbedr Pont Steffan a Chastellnewydd Emlyn.

Dyma restr y gemau cyfeillgar sydd wedi eu trefnu cyn dechrau'r tymor :-

**Tîm cyntaf**
Nos Wener, Awst 9fed – Llangennech (adref)
Dydd Sadwrn, Awst 24ain – Tonna (adref)

**Ieuenctid**
Dydd Sadwrn, Awst 3ydd – Gilfach Goch (adref)
Dydd Sadwrn, Awst 17eg – Quins Caerfyrddin (bant)



Llun y garfan, sef Pencampwyr Adran 2 y Gorllewin am y tymor 2023 - 2024 gyda'u hyfforddwyr Rhodri Jones, Mike Jones a Dafydd Evans. *(Llun: Chris Rees)*

Cadwch lygad ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol ac ewch i'r http://www.stclearsrfc.co.uk i gael rhagor o fanylion am noddi, aelodaeth, cysylltiadau timau mini a iau gyda thimau o dan 7 i dan 15 oed. Edrychwn ymlaen at eich gweld y tymor nesaf ym Mharc Griffith Jones a gallwch ein dilyn ar ein tudalen instagram.

Sganiwch y cod QR sydd ar y dudalen yma, i gael mynediad i'r dudalen.

*Gwyndaf Williams*

## Clwb Pêl-droed Llanboidy

Tra bod tymor 2023-2024 wedi dod i ben, mae'n bryd paratoi ar gyfer tymor 2024-2025 gan obeithio y bydd yn dymor llwyddiannus i'r Clwb.

**Adran hŷn**
Unwaith eto bydd dau dîm gyda'r Clwb, gyda'r tîm cyntaf yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion a'r ail dîm yn chwarae yn nhrydedd Adran Ceredigion. Mae'r ymarferion "Pre-season" wedi dechrau nos Iau, 4ydd Gorffennaf yn Llanboidy ar gaeau Dandre. Bydd yr ymarferion pob nos Fawrth ac Iau trwy'r haf ac yn dechrau am 18.30yh. Croeso cynnes i chwaraewyr hen a newydd ymuno â ni ar gyfer y tymor. Er bydd ambell gêm gyfeillgar dros yr haf, bydd y tymor swyddogol yn dechrau ganol mis Awst.

**Adran Iau**
Cafwyd diwrnod ymarfer agored i'n timoedd Iau ar ddydd Sadwrn, 13eg Gorffennaf, ac mae'r timau yn edrych ymlaen at y tymor newydd. Am fwy o wybodaeth am amseroedd ymarferion - ewch i gyfryngau cymdeithasol yr Adran Iau.

*Rhodri Lewis*

Rydym o hyd yn chwilio am noddwyr i'r Clwb, cysylltwch os oes unrhyw ddiddordeb gyda chi. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gemau/ymarferion hefyd - <http://www.ceredigionleague.co.uk/> neu gyfryngau cymdeithasol y Clwb.



Y chwaraewyr yn ymarfer